# Llais Ogwan

*Papur Bro Dyffryn Ogwen*

**Rhifyn 499 · Mai 2019 · 50c**

## Bawd i fyny!

Ddiwedd Ebrill daeth yn amser llwyfannu cynhyrchiad diweddaraf Clwb Drama Crawia yn y Dyffryn, gyda chynyrchiadau llwyddiannus y gorffennol, megis Dawns Dyffryn Derw a Brenhines y Crawia, yn parhau'n fyw yn y cof. Tipyn o gamp, felly, fyddai creu cynhyrchiad cwbl wreiddiol arall fyddai'n difyrru ar yr un raddfa.

Rhoddwyd y cyfrifoldeb am y gerddoriaeth unwaith yn rhagor i Ynyr Llwyd, cerddor amryddawn sy'n hen gyfarwydd â chyfansoddi ar gyfer cynulleidfaoedd o bob math – o lwyfannau'r eisteddfod i Gân i Gymru, i gyhoeddi tair albwm fel artist unigol. Gwaith ei chwaer fawr - ac athrawes y Clwb, Angharad Llwyd Beech - oedd llunio'r sgript. Y mae hi hefyd yn hen law ar y busnes sgriptio, gyda sioeau Crawia'n enghreifftiau diweddar o ffrwyth ei llafur. Diau fod ei gwaith dydd i ddydd yn chwarae rhan Sophie yn y gyfres boblogaidd 'Rownd a Rownd' yn gymorth hefyd wrth ddod â'r sgript yn fyw.

Roedd i'r sioe yma deitl eithaf amwys – "Ffawd y Bawd" – ond o fewn cwta funud i ddechrau'r sioe, fe'n taflwyd fel cynulleidfa i fyd rhaglenni "realiti", tecstio a chaethiwed y to iau i'w ffonau symudol. Cawsom hanes y prif gymeriad yn wynebu heriau sy'n rhy gyfarwydd i'n pobl ifanc heddiw - ffitio i mewn, bwlio a phroblemau cartref - a hyn oll i gyfeiliant alawon heintus, hyfryd oedd yn gweddu i'r dim i gyfoesedd a naws gyffredinol y sioe. Cafwyd ôl-fflach hyfryd i'r hen ddyddiau wrth i ni gael ein tywys i fyd cyn technoleg, byd ble'r oedd plant yn chwarae allan, yn cwrdd â'i gilydd, ac yn cyfathrebu – yn ystyr gwreiddiol y gair! Cafwyd golygfeydd gwirioneddol ddigrif gyda'r henoed yn y sioe yn gwaredu'n llwyr am yr hyn oedd yn digwydd i'w hwyrion a'u hwyresau. Daeth y sioe i uchafbwynt gyda rhaglen realiti yn trafod melltith neu fendith ffonau symudol, yn cael ei chyflwyno'n llawn hiwmor gan y cyflwynwyr, a'r bleidlais ar y diwedd yn trosglwyddo neges bwysig i bob un ohonom heddiw. Nid gormodiaith yw dweud fod pawb wedi gadael y neuadd wedi'u gwefreiddio, a nodau hudolus "Coda Dy Ben" yn atsain yn eu clustiau.

Dyma sioe arall o'r radd flaenaf, gyda phlant y Dyffryn yn dod at ei gilydd i wneud, dweud , canu ac actio rhywbeth o bwys. Yr oedd yn fraint cael bod yno. Y cwestiwn mawr wrth gwrs yw, pryd ma'r sioe nesa?!

Gyda diolch i Manuela Niemetscheck am y lluniau.







Llais Ogwan

## Panel Golygyddol

**Derfel Roberts**
☎ 600965
derfel.roberts@btinternet.com

**Ieuan Wyn**
☎ 600297
ieuanwyn01@gmail.com

**Lowri Roberts**
☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com

**Neville Hughes**
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

**Dewi A Morgan**
☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

**Trystan Pritchard**
☎ 07402 373444
trystanrp1@gmail.com

**Walter a Menai Williams**
☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk

**Orina Pritchard**
☎ 01248 602119
orinapritchard@gmail.com

**Rhodri Llŷr Evans**
☎ 07713 865452
Rhodri.llyr.evans@gmail.com

**Owain Evans**
☎ 07588 636259
owain.evans1@gmail.com

**Carwyn Meredydd**
☎ 07867 536102
carwynian@hotmail.com

## Swyddogion

**Cadeirydd:**
Dewi A Morgan, Park Villa, Lôn Newydd Coetmor, Bethesda, Gwynedd LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

**Trefnydd hysbysebion:**
Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda LL57 3PA ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

**Ysgrifennydd:**
Gareth Llwyd, Talgarnedd, 3 Sgwâr Buddug, Bethesda LL57 3AH ☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

**Trysorydd:**
Godfrey Northam, 4 Llwyn Bedw, Rachub, Llanllechid LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.co.uk

**Y Llais drwy'r post:**
Owen G Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com

## Golygydd y mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan Lowri Roberts.

Y golygydd ym mis Mehefin fydd Orina Pritchard, 7 Rhos y Nant, Bethesda, LL57 3PP. 01248 602119 E-bost: orinapritchard@gmail.com

Pob deunydd i law erbyn **dydd Mercher, 5 Mehefin** os gwelwch yn dda.

Casglu a dosbarthu **nos Iau, 20 Mehefin**, yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

**DALIER SYLW:** NID OES GWARANT Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD CAU YN CAEL EI GYNNWYS.

Cyhoeddir gan Bwyllgor Llais Ogwan @Llais_Ogwan

Cysodwyd gan Elgan Griffiths
elgangriffiths@btinternet.com
☎ 01970 627916
Argraffwyd gan *y Lolfa*

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru · CYMRAEG

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

**Mae Llais Ogwan ar werth yn y siopau isod:**

**Dyffryn Ogwen**
Londis, Bethesda
Siop Ogwen, Bethesda
Cig Ogwen, Bethesda
Tesco Express, Bethesda
Siop y Post, Rachub

**Bangor**
Siop Forest
Siop Menai
Siop Ysbyty Gwynedd

**Caernarfon** Siop Richards

**Porthaethwy** Awen Menai

**Rhiwlas** Garej Beran

# Dyddiadur y Dyffryn

**Mai**

18 Bore Coffi Gorffwysfan. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
19 Oedfa Ysgolion Sul Annibynwyr Bangor a Bethesda. Bethlehem Talybont am 10.30yb
20 Te Bach. Festri Carmel Llanllechid. 2.30 – 4.00.
25 Garddwest Eglwys Sant Cedol yn y Ficerdy, Pentir am 1.30.
28 Gig – Fairport Convention. Neuadd Ogwen am 7.30.

**Mehefin**

01 Bore Coffi Cyfeillion Ysbyty Gwynedd. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
01 Cyngerdd Elusennol Côr y Penrhyn. Cadeirlan Bangor am 7.00
01 Merched y Wawr Tregarth. Gwibdaith i Ben Llŷn.
06 Sefydliad y merched Carneddi. Brethyn Cartref. Cefnfaes am 7.00.
08 Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen.
08 Marchnad Ogwen.. Cae Sioe Dyffryn Ogwen.
08 Gig – MR, Y NIWL, HEN WLAD (MEWN DUB). Neuadd Ogwen am 7.30.
15 Bore Coffi Eglwys Crist Glanogwen. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
20 Noson Casglu a Dosbarthu'r Llais. Cefnfaes am 6.45.
22 Bore Coffi Eglwys St. Cedol, Pentir. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
22 Te Mefus Eglwys St. Cross, Talybont. Ysgoldy am 3.00
29 Bore Coffi Eisteddfod D. Ogwen. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.

**Gorffennaf**

03 Te Mefus, Festri Bethlehem, Talybont am 7.00
06 Bwrlwm Haf. Cae Ysgol Dyffryn Ogwen. 2.00 – 6.00.
13 Garddwest y Tair Eglwys. Ficerdy Pentir.

## Archebu trwy'r post

Gwledydd Prydain – £22
Ewrop – £30
Gweddill y Byd – £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com ☎ 01248 600184

I hysbysebu yn **Llais Ogwan, Neville Hughes** 600853 (nev_hughes@btinternet.com)

## Ysgol Abercaseg



**Ymweliad â'r ardal leol**
Braf oedd mynd am dro o amgylch pentref Bethesda gyda dosbarth Ffrancon. Bu'r disgyblion yn brysur yn dysgu am eu hardal leol ac yn ymarfer croesi'r ffordd yn ddiogel, a chawsant lawer iawn o hwyl! Gobeithio y cawn gyfle i fynd ar daith eto yn y dyfodol.

**Parêd Hetiau Pasg**
Er mwyn hybu ailgylchu cynhaliwyd cystadleuaeth creu hetiau Pasg o bethau wedi'u uwchgylchu. Cafwyd sioeau lliwgar wrth i bob dosbarth yn eu tro gerdded a modelu eu hetiau. 'Roedd yn braf gweld y neuadd yn llawn rhieni yn mwynhau, a diolch iddynt am fod mor weithgar yn helpu'u plant i greu hetiau gwerth chweil. Diolch hefyd i Mr Rheinallt Puw am gynrychioli'r llywodraethwyr wrth feirniadu, ac i Tesco am gyfrannu gwobrau. Llongyfarchiadau i'r tri o bob dosbarth a ddaeth i'r brig.




**Clwb Digidol**
Daeth y clwb digidol i ben yr wythnos yma, a chytunwyd gan y plant a'r rhieni fod y clwb wedi bod yn llwyddiannus dros ben. Braf oedd gweld y plant yn dysgu'r rhieni sut i ddefnyddio gwahanol dechnoleg!

## Braichmelyn

**Rhiannon Ifans**, Glanaber, Pant, Bethesda ☎ 600689

**Gwella**
Braf yw gweld Mrs Evans, 2, Bodforus, wedi codi allan, ac yn amlwg yn gwella yn dilyn codwm yn ei chartref, pryd y torrodd ei choes. Cofion cynnes atoch.

Arbenigwr mewn lloriau coed caled
A.G.L.
Lloriau
Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.
Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

## Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Gwyn yn swyddfa'r deillion, Bangor 01248 353604

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

**Gareth Llwyd** ☎ 601415
**Neville Hughes** ☎ 600853

## Rhoddion i'r Llais

| | |
|---|---|
| £400.00 | Cyngor Cymuned Bethesda. |
| £100.00 | Cyngor Cymuned Llanllechid. |
| £30.00 | Er cof am Gilbert Bowen, ar ei ben-blwydd, 6 Mai, oddi wrth Gwenda a'r teulu. |
| £10.00 | Llewela O'Brien er cof am ei mam, Catherine Mary Thomas, 22 Maes Ogwen, Tregarth, a fu farw yn 60 oed ar 4 Mehefin 1978, ac i gofio am ei phen-blwydd ar 17 Mehefin. |
| £20.00 | Hilda Campbell, Erw Las, Bethesda. |
| £5.00 | Don Hughes, Halifax. |

**Diolch yn fawr.**

## Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

***Gwobrau Mai***

| | | |
|---|---|---|
| £30 | (166) | Rhodri Williams, Gaerwen.. |
| £20 | (77) | Miss J. B. Williams, Porthaethwy. |
| £10 | (59) | Ann T. Jones, Tal y Cae, Tregarth. |
| £5 | (68) | Gwyneth Roberts, Cochwillan, Talybont. |

**(Os am ymuno, cysylltwch â Neville Hughes – 600853)**

Copa
Gwallt a Harddwch
Siop Trin Gwallt a Harddwch
Bethesda 600094
Yn arbenigo mewn trin gwallt merched, dynion a phlant.
Cynghori, gosod a thorri wigiau
Rhai gwasanaethau harddwch a shafio (rasal "cut throat")

## Llandygái

**Iona Wyn Jones,** Dyma Fo, 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 354280
**Eirlys Edwards,** Sŵn y Coed, 23 Pentref Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 351633

**Pen-blwydd**

Dathlu ei phen-blwydd yn 94 oedd Mary Robinson, Fern Cottage ar y 25 ain o Ebrill. Mae'n cerdded o gwmpas y pentref yn aml am sgwrs bach â'r naill a llall.

Cynllun Gerddi Cenedlaethol
(Elusen Gofrestredig)
Gardd Llys y Gwynt, Ffordd Pentir, Llandygai
DYDD SUL, MAI 19
11 a.m. – 4 p.m.
Mynediad: £4.00
(Plant yn rhad ac am ddim)
Planhigion ar werth
Lluniaeth ysgafn
Mynediad hwylus i gadair olwyn

Am fwy o wybodaeth ewch i wefan ngs.org.uk

**CAFFI COED Y BRENIN**
1 Rhes Buddug, Bethesda
**Ffôn: 01248 602550**
karena@agoriad.org.uk

Bwyd cartref blasus
*(mewn awyrgylch cyfeillgar)*
Cinio arbennig bob dydd Iau
Bwyd i'w gario allan
Gwasanaeth arlwyo ar gyfer partïon o bob math - plant, pen-blwydd ac ati
*(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)*
Cacennau ar gyfer pob achlysur e.e. priodas neu ben-blwydd
Prisiau rhesymol

**BISTRO'R BRENIN (Bwyty Trwyddedig)**
Rydym yn croesawu partïon o bob math – dathlu pen-blwydd ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i
**Londri Coed y Brenin**
wneud eich golchi

## Ysgol Llanllechid

**Canlyniadau Celf a Chrefft Eisteddfod Sir yr Urdd**

Margiad Morris, 2ail Gwaith Creadigol 2D Tecstiliau Bl 2 ac iau
Efa Mai Hardy-Griffith, 1af Gemwaith Bl 3 a 4
Margiad Morris, 1af Gwaith Lluniadu 2D Bl 2 ac iau
Margiad Ann Temple Morris, 1af Argraffu/ Addurno ar Ffabrig Bl 2 ac Iau
Efa Hardy Griffith, 3ydd Ceramig/ Crochenwaith Bl 3 a 4
Elin Edwards, 3ydd Gwaith Creadigol 2D Tecstiliau Bl 3 a 4 ac iau

**Owain Glyndwr**

Bu dosbarth Mrs Marian Jones yn dysgu ac yn cyd-actio gyda'r ffigwr arloesol hwn.

**Deinosoriaid**

Cafodd disgyblion Bl. 0 aC 1 goblyn o sioc pan gyrhaeddodd Tyranasawrws Rex anferthol iard yr ysgol!!! Fe gynhaliwyd gweithdy "Deinosoriaid" i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen fel rhan o'u thema. Bu cyfle i ddysgu am ffosiliau ac am enwau a nodweddion gwahanol ddeinosoriaid. 'Roedd y plant wrth eu bodd yn cael cyfarfod Jac y Raptor a Sophie y Tyranasorws !!

**Plas Mawr/Plas Penmynydd**

Yn ddiweddar aeth disgyblion blwyddyn 4 a 5 ar ddau drip cofiadwy i Blas Mawr a Thŷ Aberconwy yng Nghonwy, a Phlas Penmynydd, Ynys Môn. Cafodd y disgyblion wledd o brofiadau, gan wisgo yng ngwisgoedd y cyfnod, ymweld â'r ceginau, neuaddau, llofftydd a'r gerddi. Mae ein disgyblion bellach yn brysur iawn yn creu tai eu hunain o oes y Tuduriaid.

**Diolch**

Diolch i dad Oscar a Dafydd Cadwaladr am yr holl bren a gawsom er mwyn datblygu'r ardal y tu allan i'r ysgol. Fe fydd hen blannu o fewn yr wythnosau nesaf.

**Barti Ddu**

Daeth Barti Ddu o Gasnewy' Bach draw i ddosbarth Mrs Rona Williams. Dyna i chi hwyl a gafwyd yn dysgu amdano!





Cefnogwch eich busnesau lleol

I hysbysebu yn **Llais Ogwan, Neville Hughes** 600853 (nev_hughes@btinternet.com)

# Tregarth

**Olwen Hills (Anti Olwen),**
44 Bro Syr Ifor, Tregarth ☎ 600192
**Angharad Williams,**
23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth ☎ 601544

**Eglwys y Santes Fair**
*Gwasanaethau*
Mai 19eg – 9.30yb Boreol Weddi
Mai 26ain – 9.30yb Cymun Bendigaid
Mehefin 2il – 9.30yb Boreol Weddi
Mehefin 9fed – 11.00yb Cymun a Gwasanaeth Bedydd Esgob
Mehefin 16eg – 9.30yb Boreol Weddi

Ar ddydd Sul, Mehefin 9, 'rydym yn dathlu 150 o flynyddoedd ers cysegru Eglwys y Gelli. Cynhelir gwasanaeth Bedydd Esgob, a bydd arddangosfa o luniau o hanes yr eglwys. Ar ddydd Llun, Mehefin 10, bydd yr eglwys ar agor i bawb allu galw heibio, cael paned, a hel atgofion am y lluniau. Gyda'r nos, am 7yh, cynhelir cyngerdd – manylion i ddilyn.

**Yn yr Ysbyty**
Ar hyn o bryd mae Dilys Williams, Encil, Tal y Cae, yn Ysbyty Gwynedd. Mae ei chyn-gymdoges, o Y Fenallt, Tal y Cae, sef Nesta Williams, ond sydd yn byw yn awr yn Cae Garnedd, Penrhosgarnedd, Bangor, yn yr un Ysbyty. Gwellhad buan i'r ddwy ohonoch ac i eraill o'r ardal sydd ddim yn dda eu hiechyd.

**Profedigaeth**
Ar Ebrill 4 bu farw Michael Jones yn ei gartref yn Llanrhos, Llandudno yn 59 oed. 'Roedd yn briod â Ceri ac yn frawd i Albert a Peter, ac 'roedd ei rieni, sef y diweddar Robert a Paula Jones, yn byw yn Craig y Pandy, Tregarth. Cydymdeimlwn gyda'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

Cydymdeimlwn hefyd â theulu Mrs Megan Maria Borland, gynt o 12, Bro Derfel, ond yn ddiweddar o Blas Ogwen, Bethesda, a fu farw ar Ebrill 23. Gedy ei bechgyn Andrew a Gareth, ei wyresau Samanatha a Tanwen, ei wyrion Stephen a Gwion, a'i merched yng nghyfraith Christine ac Eiddwen.

**Clwb Cant Canolfan Tregarth Mis Ebrill**
20: Pauline Jones £15
87: Enid Roberts £10
41: Goronwy Roberts £5

**Newyddion Capel Shiloh**
*Telynores Addawol*
Llongyfarchiadau i un o bobl ifanc y Capel. 'Roedd Gwenno Roberts, Fferm Dob, yn ymddangos ar y rhaglen 'Heno' o'r Ŵyl Delynau yng Nghaernarfon yn ddiweddar. Mae Gwenno yn cael ei hyfforddi i chwarae'r offeryn, a byddwn yn cael cyfle i wrando arni yn y Gwasanaethau Teulu pan fydd yn cyflwyno datganiadau ar y delyn. Da iawn chdi Gwenno!

*Drws Agored*
Bob bore Gwener, rhwng 10 o'r gloch a hanner dydd, bydd drws Shiloh ar agor ar gyfer paned, sgwrs a chwmni. Beth am droi i mewn am orig ddifyr?

*Aberhenfelen*
Mae un arall o ieuenctid Shiloh wedi bod yn brysur ers rhai misoedd bellach. Cafodd Ifan Rhys Cooke, Cwm Hyfryd, Gefnan , Mynydd Llanygai, ei ddewis i chwarae y gitar fâs yng nghynhyrchiad Cwmni Theatr yr Urdd o 'Aberhenfelen'. Bydd y cynhyrchiad i'w weld yn Galeri Caernarfon ym mis Gorffennaf ac yna yng Nghaerdydd. Mae Ifan yn dilyn cwrs Technoleg Cerdd yng Ngholeg Menai. Llongyfarchiadau i ti, a mwynha y profiad gwych yma.

*Anrhydedd*
'Rydym i gyd yn Shiloh wrth ein bodd o glywed y newyddion y bydd Medal Syr T.H.Parry Williams yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni yn Llanrwst yn cael ei rhoi i Falyri Jenkins, Tal-y-bont, ger Aberystwyth. Un o genod Sling ydi Faleri ac mae ei thad, Dennis Griffiths, Llanllechid , yn aelod ffyddlon yma yn Shiloh. Llongyfarchiadau Falyri, a diolch am yr holl waith yr wyt yn ei wneud yn gerddorol a diwylliannol yn Sir Aberteifi.

*Oedfa Deulu Sul y Blodau*
Nos Sul, Ebrill 14, sef Sul y Blodau, cawsom gwmni rhai o ieuenctid y capel a'u teuluoedd, a sgwrs amserol gan Rhian Evans-Hill. Mae'n hyfryd cael cyfle i wrando ar Rhian, ac yn ddiweddar 'rydym wedi cael y cyfle hwnnw yn bur aml gan ei bod yn dilyn hyfforddiant fel pregethwr. Diolch iddi am ei chyfraniad i'r gwasanaeth, ac i'r plant a'r ieuenctid, sef Gwenno ac Iestyn , Gwenlli, Nel Mai, Myfi Celyn a Mali Non. Cawsom fendith yn eich cwmni. Am waith mor dda cawsant eu gwobrwyo gydag wŷ Pasg. Yn ystod y gwasanaeth canodd Helen Wyn y gân 'Sul y Blodau' yn hyfryd iawn.

'Rydym wedi cael y pleser o gael ein harwain mewn gwasanaethau gan un arall o aelodau Shiloh sydd yn bwriadau paratoi ei hun i Weinidogaethu yn bregethwr cynorthwyol, sef Ffion Rowlinson. Pob dymuniad da i Ffion a Rhian ar eu cyrsiau yn paratoi am y dyfodol. 'Rydym yn lwcus iawn o'r ddwy ohonoch yn Shiloh.

*Gwasanaethau yn Shiloh*
Gwasanaethau am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol

| | |
|---|---|
| Mai 19 | Rhian Evans-Hill, Rhiwlas |
| Mai 26 | Gwyndaf Jones, Bangor |
| Mehefin 2 | Richard Gillion |
| Mehefin 9 | Richard O. Jones, Gaerwen |
| Mehefin 16 | Gwynfor Williams, Caernarfon |
| Mehefin 23 | Trefniant Lleol |
| Mehefin 31 | Richard Gillion |

I hysbysebu yn **Llais Ogwan, Neville Hughes** 600853 (nev_hughes@btinternet.com)



**C.L. JONES**
Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu



**Bethesda 01248 600045**
**Caernarfon 01286 676070**
**Llangefni 01248 751677**

**Cludiant am ddim yn lleol**
**Stoc helaeth ac amrywiol**
**Staff cyfeillgar a phroffesiynol**
**Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y**

**Mynytho 01758 730768**
**Llanrwst 01492 640794**

**Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a Llanrwst**

# Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes



Ddechrau 2015, euthum ati i baratoi sgwrs ar y testun 'Dyffryn Ogwen a'r Rhyfel Mawr' i'w thraddodi yn y Gymdeithas Hanes leol (ac a draddodais wedyn yng Nghlwb Hanes Rachub ac yn y Caban, Gerlan). Dysgais lawer wrth wneud y gwaith ymchwil, a chanfod, ymhlith pethau eraill, fod dros 800 o hogia'r ardal wedi brwydro yn y Rhyfel Byd Cyntaf, o leiaf 132 ohonyn nhw na ddaethant yn ôl at eu teuluoedd. Cofiwn fod tua 30 o addoldai yn y fro hyd at tua chanol y ganrif ddiwethaf a rhyfeddwn mai dim ond rhyw 10 sydd ar ôl erbyn heddiw.

**Cofebion**

Cofnodwyd enwau'r hogia a gollwyd ar gofebion mewn nifer go dda o'r addoldai lleol ac mae ambell un yn dal yn eu lleoliad gwreiddiol. Ond beth am y rheini oedd yn y capeli a gaewyd neu a chwalwyd? Pwy sy'n cofio'r golofn urddasol, gydag enwau'r milwyr arni, a safai o flaen Capel y Gerlan? Caewyd y capel ddiwedd 1993, a phan gafodd yr adeilad ei chwalu, dyna hefyd, yn ôl a glywais, fu tynged y gofeb.

Yn ffodus, cafodd y cofebion o Gapeli Salem (Carneddi), Salem (Rachub) a Brynteg, eu gosod o fewn adeiladwaith o friciau ym Mynwent Coetmor (a chlywais mai'r diweddar J. Kenneth Hughes, gyda chydweithrediad y Lleng Brydeinig, oedd yn gyfrifol am hynny). Gwaetha'r modd, roedd y paent du a amlygai'r ysgrifen ar y tair cofeb wedi hen ddiflannu a bellach wedi mynd yn un â'r cefndir o farmor gwyn. Tua'r un pryd, roeddwn wedi sylwi (yn yr un fynwent), bod y llythrennau ar garreg fedd un o feirdd mwyaf Cymru erioed, sef R. Williams Parry, hefyd wedi mynd yn aneglur iawn a'r bedd ei hun yn gofyn sylw. Gyda chydweithrediad Bryn Hughes, Rheolwr Amlosgfa ac Uwch Arolygydd a Chofrestrydd Mynwentydd Cyngor Gwynedd ac un o'n hogia ni ym Methesda, gwnaed gwaith ardderchog trwy gael gwared â'r ddau lwyn oedd yn cuddio'r garreg ei hun.

**Cymwynas Robin Hughes**

Soniais am broblem y llythrennau 'gwynion' ar gefndir o farmor gwyn y tair cofeb wrth gyfaill o Langefni, sef Robin Hughes, Trefnydd Angladdau a Thriniwr Cerrig Beddau. 'Mi ga i olwg arnyn nhw' oedd ymateb Robin. O fewn wythnos, roedd y tair cofeb, yn ogystal â charreg fedd R. Williams Parry, fel newydd, y llythrennau'n gwbl glir a darllenadwy unwaith eto, a bedd y Prifardd wedi'i dacluso'n gyffredinol. Gwrthododd Robin dderbyn unrhyw dâl am wneud y gwaith.

**Cofeb Capel Bethesda**

Mae hanes arbennig i'r gofeb a arferai fod ar y wal yng nghyntedd allanol Capel Bethesda. Caewyd y Capel tua chanol 1988 a chafodd enw newydd maes o law, sef 'Arafa Don', er cof am R. S. Hughes, organydd y Capel a chyfansoddwr adnabyddus iawn. Ond i ble'r aeth y gofeb, tybed?

Cafodd ei rhoi ar ei gorwedd ar ymyl llwybr ym Mynwent Coetmor a thros y blynyddoedd amharwyd yn arw arni gan effeithiau natur a thywydd. Roedd yr enwau a ysgythrwyd arni, a oedd wedi'u paentio'n ddu ar un adeg, bron yn annarllenadwy. Methiant fu pob ymdrech ar fy rhan i'w glanhau a phrin y gellid dweud mai carreg o farmor gwyn oedd hi.

Yn rhifyn nesaf *Llais Ogwan*, bydd llun cofeb Capel Bethesda fel yr oedd lai na blwyddyn yn ôl, yn gorwedd yn ddigon disylw ar wely o wair ar ymyl llwybr ym Mynwent Coetmor.

I'w barhau

MODURON PANDY Cyf.
MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio
01248 600619
moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk
Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY
UNIPART CAR CARE CENTRE

STEPHEN JONES
TREFNWR
ANGLADDAU CYF
PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS
BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

PEN Y CEUNANT ISAF
Y BWTHYN TÉ
www.snowdoncafe.com
Llwybr Yr Wyddfa
Llanberis
LL55 4UW
01286 872 606



Contractwyr Trydanol
Jones & Whitehead Cyf
Swyddfa Gofrestredig
Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU
Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982
E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk
ECA
CHAS

# Hogan o Sling

Yn ddiweddar cyhoeddwyd mai Falyri Jenkins, gynt o Sling, fyddai'n derbyn Medal Goffa T H Parry-Williams yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst eleni. "Athrawes o'r radd flaenaf" oedd disgrifeiad ei chyfoedion ohoni, gyda'r Eisteddfod Genedlaethol yn datgan fod "nifer fawr o blant a phobl ifanc ei bro eu hysbrydoli gan Falyri, yn enwedig ym maes cerddoriaeth, wrth iddi hyfforddi unawdwyr, partïon, corau ac offerynwyr lu am flynyddoedd lawer." Rhoddir y fedal yn flynyddol i unigolyn sydd wed gwneud cyfraniad sylweddol yn eu hardal tra'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Y mae Falyri'n adnabyddus am ei llyfrau cerddoriaeth i blant hefyd, sef "caneuon Bys a Bawd" a "Clap a Chân i Dduw," ac yn hynod weithgar gyda'r Ysgol Sul a'r papur bro. Llongyfarchiadau gwresog iddi ar ennill clod cwbl haeddiannol – da'r hogan!



Ymgymerwr adeiladu a gwaith saer

**Ronald Jones**

Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda
☎ 01248 601052

## EGLWYS GELLI, TREGARTH YN DATHLU 150 MLYNEDD

### APÊL AM LUNIAU

Bydd Eglwys Gelli yn dathlu 150 o flynyddoedd ym mis Mehefin Os oes gan rhywun luniau a fuasai o ddiddordeb (e.e. priodasau, bedydd, digwyddiadau a.y.y.b) byddem yn ddiolchgar iawn pe caem eu benthyg ar gyfer eu cynnwys mewn arddangosfa.

**Cysylltwch â Rosemary,**
**19 Ffordd Tanrhiw, Tregarth.**
**Ffôn : 01248 600412**

## BWRLWM HAF

Diwrnod Mawr o Hwyl i'r Ardal

**Pnawn Sadwrn, Gorffennaf 6ed, 2019**

**2pm – 6 pm**

ar gae Ysgol Dyffryn Ogwen, Bethesda

Ar ôl diwrnod gwych y llynedd, cynhelir Bwrlwm Haf eto eleni. Bydd gwahanol rannau o Ddyffryn Ogwen yn cystadlu yn erbyn ei gilydd mewn amrywiol gystadlaethau doniol. Cystadlaethau i'r plant hefyd. Pnawn llawn sbort!

Dyma'r timau:

**OGWEN ISAF**
Capten: Paula Williams
(Paulaowen10@hotmail.co.uk)

**OGWEN UCHAF**
Capten: Donna Watts
(donna@ogwen.org)

**TREGARTH, MYNYDD LLANDYGAI A RHIWLAS**
Capten: Anwen Morgan
(anwenmorgan@hotmail.co.uk)

**RACHUB, LLANLLECHID A THALYBONT**
Capten: Michael Williams
(michaellambchops@hotmail.co.uk)

**GERLAN A BRAICHMELYN**
Capten: Mari Emlyn Wyn
(mariems@hotmail.co.uk)

Holwch eich capteiniaid i gymryd rhan. Neu dewch i gefnogi eich ardal chi!

I hysbysebu yn **Llais Ogwan, Neville Hughes** 600853

## Rhoi'n Hael er mwyn Cofio

Cododd Côr Rygbi Gogledd Cymru swm sylweddol o arian tuag at gomisiynu Lee Odishow, cerflunydd o Ddinbych-y-Pysgod, i wneud cerflun o'r Ddraig Gymreig i gofio'r rhai a gollodd eu bywydau yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae'r cerflun wedi ei osod yn Langemark ger Ypres yn Fflandrys, Gwlad Belg.

Yn ystod yr ymgyrch i godi pres i'r gronfa, cafwyd ymateb arbennig i'r apêl yn Nyffryn Ogwen ac 'roedd aelodau'r pwyllgor yn gwerthfawrogi haelioni unigolion a busnesau lleol.



(Diolch i Pat Hamilton am yr wybodaeth a'r llun.)

Modurdy Central

M.O.T. ar gael
Hefyd
Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎601031

MODURDY FFRYDLAS

Profion M.O.T.

Perchennog
A. Ll. Williams

Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦TEIARS A BATRIS♦
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN

☎ 600723
Ffacs: 605068

**Neville Hughes** 600853
(nev_hughes@btinternet.com)

BARBWR OGWEN



Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy
losgi coed

01248 605207


# CHWILAIR

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | A | W | F | H | R | I | E | P | A | P | U | R | P | A | W | B | J | L | C |
| M | B | V | D | R | Y | C | H | B | H | X | J | U | I | S | V | S | H | E | I |
| M | G | G | G | V | H | M | D | W | G | H | U | Z | M | X | **V** | A | D | D | N |
| A | O | P | A | I | U | Q | D | U | I | S | O | F | R | P | Y | Q | Z | G | R |
| H | L | C | U | M | E | A | W | N | E | D | D | Y | N | A | I | R | O | L | C |
| O | E | Y | R | I | R | R | A | S | R | Z | U | T | F | D | X | U | P | W | R |
| H | U | C | Q | I | H | W | M | E | M | H | O | Y | E | E | G | E | O | M | H |
| E | A | P | A | T | T | C | B | Y | Y | B | C | U | U | J | P | L | T | M | I |
| V | D | N | G | E | A | R | M | Y | C | D | L | A | R | E | H | R | Y | V | D |
| C | B | B | F | R | F | O | G | J | D | N | V | I | I | R | R | X | I | M | H |
| T | T | O | S | R | K | O | P | W | D | R | O | C | M | K | C | B | O | R | C |
| X | V | R | Y | E | H | S | T | M | Y | R | E | H | F | Y | I | J | D | Z | H |
| B | O | C | W | M | O | S | C | R | S | A | I | X | T | D | N | I | L | X | J |
| J | R | M | B | O | U | W | T | E | E | X | M | D | E | Y | X | K | F | U | P |
| C | M | Q | Y | G | A | O | I | L | N | F | E | N | R | Z | R | Q | R | O | C |
| T | Y | D | G | N | R | W | S | L | I | Z | E | E | B | E | A | B | J | K | J |
| C | C | L | N | E | E | L | R | V | D | G | O | G | J | P | W | P | G | S | O |
| W | J | J | Q | R | S | U | L | F | Y | S | V | T | X | E | U | G | H | S | L |
| Z | E | A | F | E | M | X | I | W | T | Z | H | K | V | A | G | B | N | K | A |
| D | S | I | K | S | A | O | G | D | H | B | S | I | U | R | O | X | A | G | X |

## Newyddiaduron

Yn y chwilair mis yma mae TEITL DEUDDEG NEWYDDIADUR i'w darganfod, Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd, LL57 3NW, erbyn MEHEFIN 2 . Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

Rwyf yn ymddiheuro i'r llu ohonoch a gafodd hyd i'r gair CYW yn y chwilair mis diwethaf, ond nid oeddwn wedi rhoi teitl y rhaglen yma yn y chwilair, disgyn wrth ei gilydd wnaeth y llythrenau yma gan y rhaglen rwyf yn ei ddefnyddio i gynhyrchu'r chwilair. Yn chwilair mis yma rwyf wedi rhoi teitl deuddeg papur newydd i chi ei ddarganfod. Dim ond o flaen un teitl rwyf wedi rhoi y llythyren (Y) ond mae'r llythyren yma ar ddechrau dau teitl, felly byddwch yn ofalus wrth chwilota. **Dyma atebion Mawrth :-** Adre; Arfordir Cymru; Cân i Gymru; Clwb Garddio; Darn bach o Hanes; Fo a Fe; Pawb a'i ffarn; Prynhawn Da; Rownd a Rownd; Ryan a Ronnie; Sgorio; Y Byd ar Bedwar. **Dyma enwau'r rhai a gafodd yr ateb cywir:-** Elizabeth Buckley, Tregarth; Glenys Roberts, Henbarc; Mair Williams, Mynydd Llandegai; Doris Shaw, Bangor; Emrys Griffiths, Rhosgadfan. **Enillydd Mawrth oedd:-** Glenys Roberts, 1 Henbarc, Llanllechid.

## Nant Ffrancon

**Capel Nant y Benglog**
*Trefn y Gwasanaethau (am 2.00yp.)*
Mai 19: Parch. Huw Dylan.
Mai 26: Eleri Lloyd Jones.
Croeso cynnes i bawb.

# Ysgol Bodfeurig


Gwesty Bwystfilod Bach

**Clwb Coginio**
Ar ol ôl pum wythnos o goginio bwydydd iach a dysgu sgiliau newydd, cafodd y plant gyfle i baratoi bwyd i'w rhieni. 'Roedd y plant wedi bod yn brysur iawn yn ystod y sesiwn yn creu bwydydd megis pasta, 'wraps', couscous, pitsa, creision a dip cyn i'r rhieni gyrraedd. Roedd adborth gwych gan y rhieni gan ddweud fod y bwyd yn flasus a bod y plant wedi mwynhau'r sesiynau bob wythnos, gan edrych ymlaen i greu'r bwydydd adref. Diolch i Anti Emily am arwain y sesiynau!

**Sgiliau dŵr**
Llongyfarchiadau i griw blwyddyn 6 ar gyrraedd gofynion sgiliau dŵr y cwricwlwm cenedlaethol.


**Cystadleuaeth Codio**
Llongyfarchiadau i Owen am ddod yn ail yng nghystadleuaeth Codio Cymru 2019 drwy greu gêm ar raglen Scratch.
Hoffai'r ysgol ddiolch i un o'n rhieni, sef Tamsin Slinn, am gynnal ein Clwb Codio eto eleni. 'Rydym yn ddiolchgar iawn am yr holl brofiadau mae'r plant wedi'u cael yn ystod y flwyddyn.

**Gwesty Bwystfilod Bach**
Thema dosbarth Tryfan y tymor yma yw Crewr Bwystfilod. Mae'r plant wedi dechrau ar y thema drwy adnewyddu gwesty bwystfilod bach yr ysgol. Cawn weld ymhen ychydig wythnosau pa fwystfilod bach sydd wedi dod i ymweld.


Clwb Coginio


Sgiliau dŵr


Cystadleuaeth Codio


Wärme
HEATING
DOSBARTHWYR LLEOL AR GYFER
GWRESOGYDDION STORIO
EFFEITHLON O'R ALMAEN
YN EFFEITHLON O RAN YNNI | DYLUNIAD MAIN | GWARANT 30 MLYNEDD
RHEIDDIADURON TRYDAN
WEDI EU CYNHYRCHU YN YR ALMAEN
Y datrysiad perffaith i gymryd lle eich hen reiddiaduron storio neu system wresogi
• Gwresogi yn sydyn
• Rhaglennu 24/7
• Perfformiad uchel a Glân
• Rheoli pob ystafell yn annibynnol
• Yn gydnaws ag Economy 7
• Dim costau gwasanaethu a chynnal a chadw
• Yn cydymffurfio â Lot20
• Wedi eu gosod gan Osodwyr NICEIC Cymeradwyedig
RHATACH NAG OLEW AC LPG
CYNNIG Y GWANWYN - 10%
I FFWRDD WRTH NODI PAPUR BRO
19.7 °C
12.0°C
OK
ER MWYN TREFNU EICH AROLWG RHAD AC AM DDIM FFONIWCH OS GWELWCH YN DDA
National Inspection Council for Electrical Installation Contracting
NICEIC
APPROVED CONTRACTOR
01248 371 730 | 07845 034 622 | www.warmeheating.co.uk
Ecodesign Compliant

# Entrepreneur yn dychwelyd ac yn lansio Cwmni Gwresogi Newydd!

**Mae gwraig fusnes o Fangor yn lansio cwmni rheiddiaduron trydan newydd sydd yn garedig i'r amgylchedd, Warme Heating, wedi iddi symud yn ôl i'r ardal yn dilyn 16 mlynedd yn byw ym Manceinion.**

Symudodd Julie Roberts i Fanceinion yn 2001, gan sefydlu ei hun fel ffigwr blaenllaw yn sector gwerthu a hysbysebu y cyfryngau, cyn arallgyfeirio a gweithio i gwmni rhyngwladol yn sector gwresogi'r cartref.

Dychwelodd Julie i ardal Bangor yn 2017 am resymau teuluol, gan ymchwilio i bosibiliadau hunangyflogaeth oherwydd diffyg cyfleoedd yn yr ardal. Erbyn hyn, mae wedi sefydlu ei chwmni ei hun, ynghyd â Stefan Maciejewski, dyn busnes wedi ei leoli ym Manceinion.

Dywedodd y fam sengl, sydd â thri o blant: "Symudais yn ôl i ogledd Cymru yn 2017 oherwydd gwaeledd fy nhad, ac wedi dychwelyd syrthiais yn ôl mewn cariad gyda'r lle ac roeddwn am fagu fy mhlant yma. Roeddwn wedi gweithio i gwmni rhyngwladol enfawr yn y sector gwresogi'r cartref, yn teithio miloedd o filltiroedd bob blwyddyn, ac fe sylweddolais y gallwn gynnig gwasanaeth llawer mwy personol yng ngogledd Cymru, gyda phwyslais cryf ar ôl-ofal."

Aeth ymlaen i ddweud: "Rydym wedi llwyddo i sicrhau'r hawliau dosbarthu ar gyfer ein nwyddau yn y Deyrnas Unedig ac yn gallu eu cynnig am 50% yn rhatach na'n cystadleuwyr. Gyda gwresogi Olew ac LPG yn parhau i fod yn amlwg yn y Gymru wledig, gall nwyddau Warme Heating gynnig opsiwn gwresogi llawer glanach a mwy effeithlon, sydd yn bosibl i'w raglennu i siwtio anghenion pob cartref, sydd yn dod heb unrhyw gostau gwasanaethu na chynnal a chadw, a gwarant am 30 mlynedd!"

Bwriad Julie yw i sefydlu ei hun yn Ynys Môn, Gwynedd a gweddill gogledd Cymru i ddechrau, gan sefydlu tîm o gynrychiolwyr lleol, cyn ehangu'r busnes i rannau eraill o Gymru a gogledd orllewin Lloegr.

Gall unrhyw un sydd â diddordeb mewn darganfod mwy edrych ar www.warmeheating.co.uk, ac fe allwch drefnu arolwg heb unrhyw rwymedigaeth YN RHAD AC AM DDIM drwy gysylltu â Julie naill ai drwy e-bost, neu drwy ei ffonio ar 01248 371730 – pob lwc Julie!

# Lansio llwybr newydd

Dewch i ddarganfod teithiau newydd sbon i'w mwynhau yr haf yma

Mae llwybr newydd sbon i dwristiaid yn ardal Eryri wedi cael ei lansio fel rhan o Wythnos Twristiaeth Cymru, a ddechreuodd ar 11 Mai 2019. Mae Llwybr y Dyffrynnoedd Llechi yn un o saith taith a ddatblygwyd i hyrwyddo Ffordd y Gogledd. Mae'r llwybr ar ffurf map digidol, sydd ar gael i'w lwytho i lawr AM DDIM heddiw o ymweldageryri.info.

Mae'r map yn edrych ar leoliadau gwahanol yn ardal Eryri – o Fethesda i Benygroes. Bydd defnyddwyr y map yn ymweld â mannau poblogaidd i dwristiaid megis Zip World yn Chwarel y Penrhyn, yr Amgueddfa Lechi Genedlaethol yn Llanberis a Rheilffordd Eryri yng Nghaernarfon.

Mae'r llwybr newydd yn rhan o gasgliad newydd sbon o saith map, sy'n tynnu sylw at rai o'r lleoliadau twristaidd allweddol sydd i'w gweld yn y gogledd. Mae'r mapiau wedi'u dylunio a'u cynhyrchu gan y pedair Partneriaeth Rheoli Cyrchfannau yn y gogledd wrth iddyn nhw gydweithio am y tro cyntaf (sef Ynys Môn, Gwynedd, Conwy a'r gogledd-ddwyrain - sef Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam). Mae'r mapiau'n cydgysylltu â'r ffordd 75 milltir o hyd, Ffordd y Gogledd – un o'r tri llwybr twristiaeth cenedlaethol a lansiwyd gan Croeso Cymru o dan frand Ffordd Cymru.

Gydag amrywiaeth eang o drysorau cudd yn y gogledd, mae pob map wedi'i seilio ar thema gyda'i lwybr unigryw ei hun, sy'n ymestyn o Ynys Môn i'r gogledd-ddwyrain. Ar yr agenda, gall defnyddwyr ddilyn taith arfordir Conwy, cylchdaith forwrol gogledd Ynys Môn, dyffrynnoedd llechi Gwynedd a thirnodau enwog y gogledd-ddwyrain. Mae'r llwybrau gwyddoniaeth a threftadaeth a'r llwybr gweithgaredd teulu yn mynd â chi ar daith i weld rhai o brif gyrchfannau'r gogledd-ddwyrain, tra bod y gylchdaith antur awyr agored a threftadaeth yn dangos y gorau o'r hyn sydd gan y gogledd i'w gynnig – ardal sy'n enwog am ei golygfeydd godidog a'i gweithgareddau antur llawn adrenalin.

Meddai'r Cynghorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet Datblygu'r Economi, Cyngor Gwynedd:

"Rydw i wrth fy modd bod Gwynedd ac Eryri yn rhan bwysig o'r prosiect Cymru-gyfan yma. Mae'n caniatáu i ni gryfhau ein perthynas â chynghorau cyfagos a'r sector twristiaeth lleol yn ein gwaith i roi hwb pellach i'r sector twristiaeth lleol.

Rydyn ni i gyd yn gwybod bod mwy a mwy o bobl yn defnyddio adnoddau ar-lein i gynllunio gweithgareddau a gwyliau. Nod y prosiect arloesol hwn yw tynnu sylw at yr amrywiaeth o atyniadau y gellir eu mwynhau mewn lleoliadau ledled y sir drwy gydol y flwyddyn. Fel Cyngor, rydyn ni'n credu y bydd yr ymgyrch hon yn rhoi hwb i'r economi leol ac yn darparu cynnig cyfleoedd gwaith drwy gydol y flwyddyn."

Mae'r mapiau newydd wedi bod yn ymdrech gymunedol, wrth i fusnesau gael eu gwahodd i weithdai i drafod eu syniadau ar gyfer llwybrau newydd i dwristiaid i helpu i hyrwyddo'r rhanbarth a darparu teithiau cylchol a theithiau gwahanol oddi ar Ffordd y Gogledd.

Mae'r mapiau'n rhan o ymgyrch dwristiaeth ehangach a lansiwyd gan awdurdodau lleol y gogledd, sydd - ynghyd â chyllid gan Croeso Cymru a'r Gronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol - wedi ymdrechu i roi hwb i ffigurau twristiaeth yn ystod misoedd y gaeaf, sydd wedi bod yn is na'r gobaith yn y gorffennol.

Bu'r ymgyrch yn llwyddiannus ymysg busnesau lleol, gyda digon o ymateb cadarnhaol a pharodrwydd i ddefnyddio'r hashnod #DarganfodGogleddCymru ar eu sianeli cyfryngau cymdeithasol. Mae'r hashnod poblogaidd yn dal yn fyw ar y cyfryngau cymdeithasol ac yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd i hyrwyddo'r ardal.

Thema Wythnos Twristiaeth Cymru eleni yw "Cryfder drwy Bartneriaeth", sy'n adlewyrchu'r ymdrechion a wnaed gan awdurdodau lleol y gogledd i ymwneud â'r diwydiant twristiaeth yn y rhanbarth drwy gydol yr ymgyrch – gyda'r nod o weithio gyda'n gilydd i wireddu'r manteision economaidd sy'n deillio o hyrwyddo'r rhanbarth yn ei gyfanrwydd, a manteisio ar y cyfleoedd sy'n cael eu cynnig gan Ffordd Cymru.

Meddai Richard Wyn Huws o Winllan a Pherllan Pant Du:

"Mae'n wych gweld awdurdodau lleol y gogledd yn gweithio gyda'i gilydd i gynhyrchu deunydd marchnata newydd ac arloesol i hyrwyddo'r ardal brydferth yma. Mae'r llwybr newydd yn wych, a bydd yn rhoi cyfle i ymwelwyr weld ein treftadaeth, darganfod atyniadau o'r radd flaenaf, mwynhau golygfeydd godidog a blasu cynnyrch lleol o ansawdd uchel".

Bydd yr wythnos o ddigwyddiadau yn dechrau yn y Senedd ym Mae Caerdydd ar 14 Mai, gyda thros ugain o ddigwyddiadau eraill yn cael eu cynnal ledled Cymru yn ystod yr wythnos.

Mae mapiau ar gael i'w llwytho o https://www.ymweldageryri.info/cy/ffordd-y-gogledd

Ac ar gael am ddim heddiw.

Mae'r prosiect yma wedi'i ariannu drwy'r Gronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol a'i gefnogi gan gronfa Cymunedau Gwledig - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 Llywodraeth Cymru, sy'n cael ei ariannu gan Gronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru, sef y Gronfa i wella'r profiad i ymwelwyr a chreu cyrchfannau cryfach drwy weithio gyda'n gilydd.

## Ysgol Dyffryn Ogwen

**Eisteddfod yr Urdd**
Llongyfarchiadau i'r canlynol ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Sir yr Urdd:

1af Alaw Werin Blwyddyn 7-9
- Cian Rhys
1af Deuawd Cerdd Dant Blwyddyn 7-9
- Efa a Lois
1af Unawd Llinynnol Blwyddyn 10-13
- Gwydion Rhys
1af Unawd Chwythbrennau Blwyddyn 10 -13
- Beca Nia
2il Unawd Merched Blwyddyn 7-9
- Rhiannon Elfyn
2il Deuawd Blwyddyn 7-9 - Efa a Lois
2il Unawd Bechgyn Blwyddyn 7-9
- Cian Rhys
2il Côr Bechgyn Blwyddyn 13 ac Iau
2il Côr Merched Blwyddyn 13 ac Iau
3ydd Ensemble Offerynnol Ysgol Dyffryn Ogwen

Pob hwyl i bawb fydd yn cynrychioli'r ysgol yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd.

**Cystadleuaeth Cogydd**
Pob hwyl hefyd i Anest Bryn o flwyddyn 8 fydd yn cynrychioli'r ysgol yng nghystadleuaeth CogUrdd ar ôl dod yn fuddugol yn y gystadleuaeth yn y rownd ranbarthol! Amdani Anest!!!

**Criced**
Llwyddodd tîm criced merched blwyddyn 7 ac 8 i ennill twrnament Gogledd Cymru. Aelodau'r tîm oedd Cadi Eames, Kira Williams, Emma Jones, Cara Edwards, Grace Williams, Ellie Creek a Rhiannon Roberts o flwyddyn 7 – y saith ohonynt wedi chwarae'n arbennig o dda, ac Ela Basinger, Leni Jones a Grace Wynne o flwyddyn 8 yn serennu.

## Ysgol Pen y Bryn

**Gymnasteg**
Llongyfarchiadau i Cari ar ei llwyddiant Gymnasteg yng Nglannau Dyfrdwy yn ddiweddar. Daeth yn gyntaf yn y 'Bar', 'Llawr', yn ogystal â chyntaf yn gyffredinol allan o 42 o blant o Ogledd Cymru! Dengys bod gwaith caled yn talu ar ei ganfed! Dalier ati Cari!

Llongyfarchiadau i Tia, Dwynwen a Lowri ar eu llwyddiant yng ngwaith Celf yr Urdd. Artistiaid y dyfodol!

**Glan Llyn**
Cafwyd penwythnos i'w gofio yng Nglanllyn ddiwedd Ebrill!

Mynychodd ugain o blant blwyddyn 6 y gwersyll, a chafwyd tridiau prysur a llawn hwyl. Diolch i'r holl staff am roi eu hamser ac am eu gofal, ac yn bwysicach, diolch i'r plant am eu cwmni hwyliog ac am roi enw da i Ysgol Pen y Bryn unwaith eto.

**Tesco**
Hoffem fel ysgol ddiolch yn fawr i Tesco Bethesda a fu'n cyfrannu ffrwythau'n hael ar gyfer ein gwaith ardaloedd yn wythnosol yn ystod y tymor diwethaf.





**CHRIS GRIFFITHS**
Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu

18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB
☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

**EGLWYS UNEDIG BETHESDA LLENWI'R CWPAN**
Dewch am sgwrs a phaned.
Bob bore **dydd Iau** rhwng **10.00** o'r gloch a hanner dydd

**L. Sturrs a'i feibion**
sefydlwyd yn 1965
ADEILADWYR
Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda
Ffôn: 600953
lsturrs@googlemail.com

Sefydlwyd 1969
**m.hughes a'i fab**
CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.*
*Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.*
*Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.*

Owen's Tregarth
Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
*Arbenigo mewn meysydd awyr Cludiant Preifat a Bws Mini*

01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk


**J. TEMPLE MORRIS A'I FAB**
Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
**07770 900531**
**01248 600282**
jtemplemorris@btinternet.com

# Côr y Penrhyn

## gan Derfel Roberts

**Sêr y Palladium yn Llundain**
Does dim llawer o gorau Cymreig wedi cael y fraint o ganu o flaen cynulleidfa o dros 2000 o bobl ar lwyfan un o theatrau mawr y West End yn Llundain, ond dyna fu hanes aelodau Côr y Penrhyn pan gawson nhw eu gwahodd i ganu cefndir i 'The Good, the Bad and the Queen' (GBQ) yn y theatr fyd-enwog honno ar Nos Wener y Groglith. Fel y cofia darllenwyr y golofn hon, bu'r côr yn Blackpool beth amser yn ôl yn lansio albwm newydd GBQ, ac roedd hwnnw'n brofiad bythgofiadwy. Bellach mae'r côr wedi ennill cydnabyddiaeth am ei barodrwydd i berfformio darnau gwahanol iawn i raglen corau Cymreig trddodiadol ac mae mwy o alwadau tebyg yn dod i ran y côr gyda threfniadau ar y gweill i berfformio mewn sawl gŵyl a chanolfan arall nodedig. Dyddiau cyffrous yn wir.

**Torri tir newydd**
Cred Walter Williams, sy'n un o hoelion wyth y côr, bod y daith i Lundain yn torri tir newydd a chwyldroadol i ganu corawl. " Rydw i wedi bod yn aelod mewn sawl côr a pharti dros y blynyddoedd," meddai Mr Williams, "ac rwy'n credu mai un o rinweddau Côr Mebion y Penrhyn yw'r gallu i apelio at groesdoriad mor eang o ddiddordebau ac oedrannau."


Walter Williams o'r Ail Denoriaid.

**Band Pres Stavanger o Norwy yn dod i'r Gadeirlan**
Ar Nos Sadwrn 1 Mehefin bydd y côr yn canu mewn cyngerdd elusennol i godi arian at y Clefyd Motor Niwron a Hosbis Dewi Sant. Mae'r clefyd Motor Niwron yn effeithio ar yr ymennydd a'r nerfau gan gyfyngu dros amser ar allu'r corff i symud neu i reoli'r cyhyrau. Does dim gwella o'r cyflwr ofnadwy yma ond diolch am hynny mae'n glefyd cymharol brin o hyd, er bod nifer gynyddol ohonom yn gwybod am rywun agos sydd wedi dioddef ohono.

Mae Hosbis Dewi Sant yn Llandudno yn darparu gwasanaeth gofal i bobl sy'n dynesu at ddiwedd eu bywydau ac sydd angen gofal 24 awr. Mae'r Hosbis yn elusen leol sy'n darparu gofal hosbis i oedolion o siroedd Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn. Mae'n rhoi gofal lliniarol arbenigol o safon uchel yn rhad ac am ddim i gleifion gydag afiechydon datblygedig yn ogystal ag i'w teuluoedd a'u gofalwyr.

Cyfarfu Côr y Penrhyn ag aelodau Band Stavanger pan aeth y côr drosodd i Norwy rai misoedd yn ôl a rhoddwyd gwahoddiad i'r band i ddod draw i Gymru.

Mae'r tocynnau yn £10 yr un a gellir eu cael gan aelodau'r côr ac mewn siopau lleol neu ar wefan Neuadd Ogwen ac yn y Neuadd ei hun. Dewch i gefnogi'r ymwelwyr o Norwy ac i helpu dau achos arbennig o haeddiannol.

# Cymeriadau'r Côr

**CYFRES YW HON SY'N RHOI YCHYDIG O FANYLION AM AELODAU CÔR Y PENRHYN. YR AELOD Y MIS HWN YW LLION DERBYSHIRE O'R FELINHELI.**

1 Be' ydy dy enw llawn? Llion Samuel Derbyshire (LSD!)
2 Oed? 56 a thri chwarter
3 Gwaith? Syrfëwr Siartredig yn gweithio fel Asiant Tir i Cyfoeth Naturiol Cymru
4 Lle wyt ti'n byw? Y Felinheli
5 Un o le wyt ti'n wreiddiol? O Lanuwchllyn
6 Pa dri pheth fasai'n dy ddisgrifio orau? - Mwydryn blin sy'n gaeth i Jeli Babies
7 Ers faint wyt ti'n aelod o'r côr? 6 mlynedd
8 Pa lais wyt ti? Bariton o fath
9 Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn? Wrth ddanfon Elis y mab i ymarferiadau, cael fy narbwyllo i ymuno yn y canu yn hytrach na loetran yn y maes parcio - er yn slei bach wedi dymuno ymuno â chôr ers amser.
10 Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr? 'Gwinllan a Roddwyd i'm Gofal' yw'r ffefryn ar hyn o bryd.
11 Pwy ydy dy hoff ganwr/gantores? Hoff iawn o lais Elvis ac anodd curo llais y tenor Stuart Burrows, ond fel ôl rowndars does neb yn dod yn agos at un neu ddau o gantorion yn adran y bas yng Nghôr Meibion y Penrhyn.
12 Beth ydy dy farn di am ganu pop? Ddim yn hoff o bob math ond tast gweddol eang.
13 Oes gen ti atgof am ryw ymweliad efo'r côr? Atgof o gerdded fel côr drwy strydoedd Stravanger yn Norwy i ganu mewn eglwys draddodiadol Norwyaidd hefo band pres y Ddinas; cymdeithasu a chyd ganu â thrigolion y ddinas fin nos, a'r diwrnod wedyn cael trip ar gwch ar y ffiord cyfagos.
Yn gydradd â hyn o bosib oedd y wefr a gafwyd wrth gyd ganu (yn Gymraeg) gyda Damon Albarn a'i fand The Good The Bad and the Queen yn nhref Blackpool. Yntau dan deimlad wrth wrando arnom; derbyn ymateb mor anhygoel ar y llwyfan ac wedyn yn y cyntedd gan y gynulleidfa wrth ganu ffwrdd â hi wrth adael y pafiliwn.
14 Pa ddiddordebau eraill sy gen ti y tu allan i'r côr? Dal i chwarae pêl droed yn fy henaint; cerdded ac yn hoff o arlunio pan ddaw'r cyfle.
15 Oes yna rywbeth faset ti'n hoffi gweld y côr yn ei wneud? Heblaw am berswadio Peredur Lynch i ymuno (!), all rhywun ddim gofyn gormod gan gôr sydd wedi cael canu cyn gêm ryngwladol ym Mharc yr Arfau, perfformio gyda bandiau pres o'r safon uchaf bosib fel y Black Dyke a Stravanger, a chanu gyda Slade a The Good the Bad and the Queen o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf. Heb sôn am berfformiadau cyffrous yn y dyddiadur a thrip arfaethedig i America flwyddyn nesa, ond, fel hogyn o Lanuwchllyn 'swn i wrth fy modd yn cael canu ambell ddarn o Gerdd Dant!



# Y Gerlan

**Caren Brown** Cilwern, 14 Ffordd Gerlan, Bethesda
LL57 3ST ☎ 602509 / 07789 916166
carenelaine@hotmail.com

**Heledd Selwyn,** 2 Pen Clwt, Gerlan
LL57 3TJ
☎ 01248 208254 / 07880 702640 /
heleddselwyn@hotmail.com

**Gwobrau Gwerin Cymru**
Ar Nos Iau, Ebrill 11, 2019, cynhaliwyd seremoni Gwobrau Gwerin Cymru, a hynny am y tro cyntaf. Roedd Neuadd Hoddinott ym Mae Caerdydd yn fwrlwm o gerddoriaeth a hwyl wrth i'r noson ddathlu'r artistiaid gorau o'r sîn werin Gymreig. Fe gofiwch i mi sôn y mis diwethaf bod Patrick Rimes o Gwernydd yn chwarae yn un o'r bandiau oedd wedi'u henwebu ar gyfer gwobrau sef y band VRi.

'Dwi'n falch o gyhoeddi bod VRi wedi ennill y wobr am yr albwm gorau am eu halbwm Tŷ ein Tadau, a hwy hefyd enillodd y wobr am y gân Gymraeg draddodiadol orau - am y gân Ffoles Llantrisant. Ond nid fanna yn unig mae'r ennill yn gorffen! Mae Patrick hefyd yn rhan o fand Calan, a enillodd wobr am y band gorau, a dwi'n amau'n gryf ei fod hefyd yn rhan o Pendevig, a enillodd y wobr am y perfformiad byw gorau. Llongyfarchiadau mawr Patrick - 'rydym ni'n falch iawn ohonot ti!

**Croeso'n ôl i Gerlan**
Croeso'n ôl i Buddug Jones sydd wedi symud yn ôl i Stryd y Ffynnon efo'i chariad, Mark. Mae Buddug wedi dod adref i fyw yn nhŷ ei mam - Sioned Lewis. 'Rydym yn edrych ymlaen i weld y ddau ohonoch chi o gwmpas Gerlan.

**Symud**
Tra'n croesawu Buddug a Mark i Gerlan, 'rydym hefyd yn ffarwelio efo Dyddgu a Sioned Lewis - chwaer a mam Buddug. Mae'r ddwy yn symud i fyw i Gaeathro, a dymunwn bob hapusrwydd i chi yn eich cartref newydd. 'Rydym yn siŵr o'ch gweld chi o gwmpas Gerlan pan ddowch i ymweld â Stryd y Ffynnon.

**Pen-blwydd Priodas**
Dymunwn ben-blwydd priodas ruddem hapus i Ann a Dafydd Fôn Stryd y Ffynnon. Llongyfarchiadau mawr i chi ar ddathlu'r garreg filltir arbennig yma yn eich bywyd. Ymlaen i'r 40 nesaf!

Llongyfarchiadau hefyd i Chris a Nia O'Marah, Gwernydd ar ddathlu eu pen-blwydd priodas berl. Mae'n siŵr nad ydych yn credu ble mae'r 30 mlynedd diwethaf wedi mynd! Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r dathlu, a deallwn bod gwyliau arbennig ar y gweill hefyd!

**Cydymdeimlo**
Anfonwn ein cydymdeimlad at Lisa a Gwion Tŷ Nain, Ffordd Gerlan. Hunodd nain Lisa, sef Elsie Owen, 14, Bryntirion, Bethesda, yn sydyn yn ei chartref ar y 5ed o Ebrill 2019 yn 80 oed. Bu'n fam ffyddlon i Elaine, Ian a Gwyn, Nain arbennig Kelly, Lisa, James, Kara, Holly, Jack a Sasha. Hen nain falch Katie, Elin, Aron, Osian, Jac, Deian, Loti a Lex, chwaer, modryb a mam yng nghyfraith hoffus. Bydd yn golled enfawr i'w theulu a'i ffrindiau oll. Hoffai'r teulu ddiolch i bawb am y rhoddion tuag at Ysgol Pendalar, eu cydymdeimlad, ymwelwyr, negeseuon, cardiau a galwadau ffôn yn ystod eu profedigaeth.

**Cychwyn Gyrfa Newydd**
Dymunwn yn dda i Lliwen Angharad, Hen Siop Gerlan, sydd newydd gychwyn ar gwrs nyrsio. Nid yw Lliwen yn newydd i'r byd gofal, gan ei bod wedi gweithio ers amser fel cymhorthydd gofal. Pob lwc iti Lliwen ar y cam nesaf yma yn dy yrfa.

**Pen-blwydd Hapus**
Pen-blwydd hapus iawn i Thomas Gould, Gwernydd, ar ddathlu ei ben-blwydd yn 21. Pob dymuniad da i ti Thomas.

Pen-blwydd hapus hefyd i Joan Edwards, Glanrafon a fydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 82 ym mis Mai. Mae teulu a ffrindiau yn anfon llawer o gariad a dymuniadau da atoch.

Hoffai teulu Michelle a Ricky Florence a'r teulu ddymuno pen-blwydd hapus i Anti Gladys (Brotherton) yn Rachub hefyd - gobeithio y cewch chi ddiwrnod hwyliog yn dathlu.

**Gwellhad Buan:**
Ycvhydig amser yn ôl 'roeddym yn dymuno gwellhad buan i Ellen Edwards Glanrafon pan gafodd lawdriniaeth yn Ngobowen. Mae Ellen erbyn hyn wedi cael clun newydd hefyd. Gobeithio dy fod yn mendio'n dda Ellen. Mae pawb o'r teulu yn cofio atat, ac yn edrych ymlaen at dy weld o gwmpas y pentref yn fuan.

BYSUS D. P. Owens RHIWLAS
01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER EICH HOLL ANGHENION TEITHIO - TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.
Bysus Gwyrdd Rhiwlas
GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

PANTRI PAT


## Torth Eirin Sychion, Datys a Chnau Ffrengig

***Cynhwysion***
75gram o eirin sychion (*prunes*) wedi eu mwydo mewn dŵr dros nos (neu rai'n barod i'w bwyta). Torrwch yr eirin sychion yn fras.
75g o ddatys (*dates*)meddal wedi eu torri'n fras.
110g o gnau Ffrengig (*walnuts*) wedi eu torri.
100g o fenyn meddal.
2 ŵy mawr wedi eu curo.
175g o siwgr coch (siwgr brown) meddal.
110g o flawd plaen.
110g o flawd brown.
1 llwy de o bowdwr codi.
4 llwy fawr o lefrith ½ sgim.
Pinsiad o halen.

***Dull***
Defnyddiwch dun bara (13 x 23cm). Irwch y tun oddi mewn yn hael efo menyn.
Rhowch y popty ar 180 gradd selsiws/nwy 4.
Mewn powlen fawr curwch y menyn a'r siwgr yn dda tan fydd y cwbl yn ysgafn.
Curwch yr wyau'n dda a'u hychwanegu fesul dipyn i'r cymysgedd.
Ychwanegwch y blawdiau a'r powdwr codi yn ofalus efo llwy fawr.
Ychwanegwch yr eirin sychion, y datys a'r cnau.
Cymysgwch y cwbl efo'r llefrith, yna ei roi yn y tun a'i goginio am 45-55 munud.
Mae'n barod pan fydd wyneb y dorth i'w theimlo'n springy.
Gadewch y dorth yn y tun am ryw 5 munud cyn ei thynnu allan.
I'w chadw, rhowch hi mewn tun neu ei lapio mewn ffoil.

Cerbydau Penrhyn
CABIAU A BYSIAU MINI
Ffôn: (01248) 600072
Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau
Contractwyr i Wasanaeth
Ambiwlans Gogledd Cymru

# Croesair Llais Ogwan



**AR DRAWS**

1 Ceir canmol hon yn Llyfr y Diarhebion (pen. 31) (6,2)
6 Metel trwm yw ei ail enw, ffrind Syr Wynff ap Concord (4)
8 Enw Lladin ar wlad ein cymdogion agosaf (6)
9 Ias tân i ddadebru'r cynrychiolydd (6)
10 Cefnogi trwy roi sêl bendith (10)
12 Lwc i dy giatiau fod yn syth a chywir (6)
14 'Hir yw pob ------' (dihareb) (6)
15 Teimlad annwyl a chynnes at rywun hoff (10)
19 "Jim Cro Crystyn, Wan, Tŵ, Ffôr" yn methu ------ yn gywir (6)
20 Sipsi a'i iaith (6)
21 Sicr ac heb amheuaeth (4)
22 Agor llygad a siomi wrth fynd yn ôl o'i thir da yn dilyn pum cant (8)

**I LAWR**

2 Ffrind gegog Begw yn 'Te yn y Grug' (KR) (4)
3 Hyn geir am saith mlynedd os aiff y drych yn deilchion (5)
4 Y peth gorau i 'ladd llau' yn ôl yr hen ymadrodd tywydd (4,3)
5 Gwŷdd (5)
6 Medr Nia roi trefn ar bethau i ddangos pa mor denau ydyw (7)
7 Yr hyn sy'n dilyn (8)
11 Gwyn yn cloi mewn llethrau serth (8)
13 Syrthio mewn cariad barddonol (7)
14 Gwneud i ffwrdd â rhywbeth annymunol (7)
16 '----- y Ddraig', cylchgrawn Cymdeithas yr Iaith (5)
17 'Deg am -----' oedd pris y fferins duon yn y dref ddeheuol (5)
18 Yn aml cyn llyncu bwyd (4)

ATEBION CROESAIR EBRILL 2019
AR DRAWS 5 Mulod, 7 Brwnt, 9 Piod, 10 Sadyrnau, 11 Tiwn, 12 Digrifwr, 14 Edrychiad, 16 Toddi, 17 Glasgoed, 19 Lili, 20 Ruthun, 21 Godre

I LAWR 1 Ymddiriedolwr, 2 Blodyn, 3 Abad, 4 Gwersi, 6 Disodli, 8 Tragwyddoldeb, 13 Godidog, 15 Ymsythu, 16 Teledu, 18 Ofni

Cafwyd atebion cywir iawn y tro yma, gyda dim ond un ymgais heb gwblhau'r atebion i gyd.

Dyma enwau'r rhai anfonodd atebion hollol gywir : Jean Jones, Gwenda Davies, Llanfairpwll; Adrian Poulton, Pentir; John a Meirwen Hughes, Dilys Wyn Griffith, Abergele; Doris Shaw, Bangor; Gill King, Mynydd Llandygai; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Ann a Dafydd Evans, Penisarwaun; Gwyneth Jones, Glasinfryn; Gareth William Jones, Bow Street; Barbara Jones, Jean Hughes, Talybont; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Dulcie Roberts, Elizabeth Buckley, Tregarth; Rita Bullock, Gaynor Elis-Williams, Bethesda; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Dilys Parry, Rhiwlas, John H. Evans, Llanberis; Iona Williams, Llanddulas; Myra Evans, Niwbwrch.

Yr enw cyntaf allan o'r het i ennill y clod a'r wobr ydi Gill King, 4 Tan y Bwlch, Mynydd Llandygai, Gwynedd LL57 4DX.

Atebion erbyn 7fed Mehefin, 2019 fan bellaf i 'Croesair Mai', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD.

**Atebion erbyn 7[fed] Mehefin i 'Croesair Mai'**
Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda LL57 3PD

**Enw**

..............................................................................

**Cyfeiriad**

..............................................................................

..............................................................................

# Bethesda

**Mary Jones**, maryeds@hotmail.co.uk
☎ 07443 047642
**Joe Hughes**, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda
☎ 601902

**Eglwys Crist, Glanogwen**

*Gwasanaethau*
Pob Bore Sul:
Cymun Bendigaid am 8yb
Cymun Bendigaid Corawl am 11yb
Pob bore Mercher:
Gwasanaeth Cymun byr am 10.30yb, ac i ddilyn, paned a sgwrs hwyliog.
Croeso cynnes i bawb i'r holl wasanaethau.

*Conffirmasiwn*
Ar Sul y Pentecost, Mehefin 9fed, bydd Esgob Andrew yn gweinyddu gwasanaeth Conffirmasiwn yn Eglwys St Mair, Tregarth am 6 yr hwyr. Ni fydd gwasanaeth yng Nglanogwen y Sul hwn.

*Swyddogion*
Mewn cyfarfod diweddar penodwyd y swyddogion canlynol ar gyfer eglwys Glanogwen am y flwyddyn i ddod:
Warden y Ficer: Mrs Glenys Morgan
Warden y Bobl: Mrs Barbara Owen
Trysorydd: Ms Lester Bath
Ysgrifennydd yr eglwys: Mrs Glenys Morgan
Anfonwn ein cofion at bawb sydd yn wael neu yn gaeth i'w cartrefi. Cofiwch adael i'r swyddogion wybod os oes unrhyw un am gael ymweliad neu Gymun yn eu cartref.

**Yr Eglwys Unedig**

Bu'r mis diwethaf yn un prysur iawn yn yr Eglwys, gan ein bod wedi dathlu Gŵyl y Pasg. Trefnwyd helfa wyau ar gyfer y plant ar Sul y Blodau gan Alwenna a Lowri, a bu i bob un ohonynt lwyddo i ganfod digon i lenwi'r basgedi cywrain a luniwyd gan Alwenna. Diolch i'r athrawon am eu gwaith caled.

Ar Sul y Pasg, cafwyd oedfaon ardderchog. Yn y bore, Menai, Walter, Lowri a Mari oedd yn cymryd rhan – diolch yn fawr i'r teulu bach am eu cyflwyniad graenus. Jennifer oedd yn gyfrifol am oedfa'r hwyr, a chawsom hanes diddorol ei thaith hi a'i mam i Jerwsalem ac Oberammergau, ynghyd â sleidiau pwrpasol. Diolch yn fawr iddi hithau. Rhiannon a Minnie oedd yn gyfrifol am oedfa fendithiol iawn ar y bore Sul canlynol – mae ein diolch yn fawr iddynt hwythau.

Mae'r baned yn dilyn pob oedfa foreol yn boblogaidd dros ben, ac felly hefyd y baned ar fore Iau. Beth am ymuno gyda ni? – Cewch groeso cynnes bob amser.

Hoffem ddiolch yn gynnes iawn i Gethin Williams a Gwyn Hughes, ill dau o Ffordd Bangor, am adnewyddu'r hysbysfwrdd yng ngardd y capel.

Gofidiwn nad yw amryw o'n aelodau yn gallu ymuno gyda ni yn y gwasanaethau – anfonwn ein cofion cynhesaf atoch bob un.

Mae Adran Bentref Bro Ogwen yn ymarfer yn gyson yn y capel, a dymunwn bob llwyddiant iddynt yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd.

*Y Gymdeithas*
Nos Iau, Ebrill 11, daeth Mari Gwilym atom i'n diddori, a chawsom noson o hwyl. Diolchwyd iddi hi, ac i ferched y baned, gan Joe ac Elina. Gwnaed elw o dros £300.00 yn y Bore Coffi a gynhaliwyd fore Sadwrn, Ebrill 27 – diolch i bawb am eu haelioni a'u cefnogaeth.

*Cyhoeddiadau'r Sul*
Mai 19: Trefniant Mewnol (10)
Y Parch. Anna J. Evans (5) – Gwasanaeth Undebol Cymorth Cristnogol
Mai 26: Y Parch. Cledwyn Williams
Mehefin 2: Trefniant Mewnol (10)
Mr Dafydd Iwan (5)
Mehefin 9: Gwobrwyo'r Plant (10)
Y Parch. J Lewis Jones (5)

**Ymddeoliad**

Dymunwn yn dda i Andy (Teiars Andy, Felin Fawr) ar ei ymddeoliad ar 30 Ebrill ar ôl 30 mlynedd a mwy yn y busnes teiars. Dymuna Andy ddiolch i bawb am eu cefnogaeth iddo dros yr holl flynyddoedd.

**Llongyfarchiadau**

Cafodd tafarn Y Siôr, Carneddi, wobr anrhydeddus yn ddiweddar. Gwobrwywyd hi yn Dafarn y Gymuned, Gwynedd a Môn, gan CAMRA ("Campaign for Real Ale") Gwynedd a Môn. Mae'r dafarn yn "The Good Beer Guide" yn barod ers pum mlynedd. Dywedodd Dewi Sion y tafarnwr: "'Rydwi yn falch iawn ein bod wedi ein henwi yn Dafarn y gymuned. Mae croeso cynnes i gwsmeriaid ffyddlon a newydd yma bob amser."




**Diolch am Noson Lwyddiannus**

Gwnaed elw o £863.80 mewn Noson Caws a Gwîn a gynhaliwyd yn Nhafarn y Tarw ar nos Wener, 5 Ebrill. Trosglwyddwyd yr holl swm i Apêl Morgan Hughes, Tregarth, sydd yn disgwyl am draws-blaniad iau. Diolch yn fawr i Ann a Glyn Bull am gael defnyddio'r dafarn, ac am eu rhodd at yr achos. Diolch hefyd i Tesco Express, Bethesda. Diolch o galon i bawb a gefnogodd y noson.

**Pen- blwyddi Arbennig**

Llongyfarchiadau a phen-blwydd hapus i'r rhai a ddathlodd ben-blwydd arbennig yn ystod y mis a aeth heibio. Roedd Mrs. Glenys Jones, Adwy'r Nant yn 90 mlwydd oed ar 7 Ebrill, Mrs. Nerys Thomas, Ffordd Ffrydlas, yn 40 mlwydd oed ar 21 Ebrill, a Mrs. Hilda Campbell, Erw Las, a ddathlodd ei phen-blwydd yn 80 oed yn ddiweddar. Mae Hilda wedi cael cryn dipyn o driniaethau yn ystod y flwyddyn a da oedd gweld ei bod wedi mwynhau y dathlu.

Dymuna Hilda ddiolch i bawb fu'n edrych a gofyn amdani yn ystod ei chyfnod yn yr ysbyty ac ar ôl iddi ddod adref ac am y gofal amdani. Hoffai hefyd ddiolch i bawb a fu mor garedig gyda chardiau ac anrhegion ar achlysur ei phe-blwydd. Diolch arbennig i Lynne y ferch a'r teulu am ei gwneud yn benwythnos i'w chofio.

**Ysbyty**

Cofion a gwellhad buan i'r rhai a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar, sef:- Mrs. Daisy Jones, Maes y Garnedd; Mrs. Vera Davies, Dolgoch; Mr. Ifor Williams, Abercaseg; Marian Humphreys, Stryd Cefnfaes; Mrs. Blodwen Twigge, Maes Coetmor.



**Eisteddfod yr Urdd**
Llongyfarchiadau i Cian Iolen Rhys, 5, Garneddwen, ar ei lwyddiant yn Eisteddfod Sir Uwchradd Rhanbarth Eryri. Daeth Cian yn gyntaf ar gyflwyno Unawd Alaw Werin ac yn ail ar Unawd Bechgyn Blynyddoedd 7,8 a 9.
Pob hwyl, Cian, yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, a gynhelir eleni yng Nghaerdydd.

**Llwyddiant Cerddorol**
Llongyfarchiadau i Tili Viola Jones Roberts, 21 Glanogwen, ar lwyddo "gyda rhagoriaeth" yn ei arholiad Theori Cerddoriaeth, Gradd Un, yn ddiweddar. Llongyfarchiadau hefyd i Danial Roberts, 16 Glanogwen, ar lwyddo yn ei arholiad Piano, Gradd Tri, hefyd yn ddiweddar. Hyfforddir y ddau gan Gerwyn Llwyd, Maes y Garnedd, a threfnwyr eu arholiadau oedd Bwrdd Cysylltiol yr Ysgolion Cerdd Brenhinol.

**Babi**
Llongyfarchiadau i Mr. a Mrs. Geraint Jones, Pant Glas, ar enedigaeth eu plentyn cyntaf, sef merch fach.

**Taid a Nain**
Llongyfarchiadau i Gwyn a Beryl Burgess ar yr achlysur hapus o ddod yn daid a nain i ferch fach. Ganwyd Elin ar 16 Ebrill i Claire a Rhys, Y Groeslon, - chwaer fach newydd i Non.

**Gair o Gydymdeimlad**
Fel ymhob mis, daeth profedigaeth i ran sawl teulu yn y fro, ac anfonwn ein cofion a'n cydymdeimlad atynt:

Mrs. Norma Griffiths a'r teulu, Abercaseg a Mrs. Edwina Rowlands a'r teulu, Abercaseg - y ddwy wedi coll eu brawd yng nghyfraith yn Llanerchymedd ar 12 Ebrill, sef Mr. David Williams.
Mrs. Glenys Rowlands a'r teulu, Adwy'r Nant, wedi colli ei chwaer, Dorothy, o Abergele ar 16 Ebrill.

**Marw**
*Mrs. Elsie Owen*
Ar 5 Ebrill, yn sydyn yn ei chartref yn Bryntirion, bu farw Mrs. Elsie Owen yn 80 mlwydd oed. Priod annwyl Mr. H. Owen, mam hoffus i Elaine, Ian a Gwyn, a nain annwyl i Kelly, Lisa, James, Kara, Holly, Jack 'H' a Sasha. 'Roedd yn hen nain i Katie, Elin, Aran, Osian, Jac, Deian, Loti Fflur a Lex ac yn chwaer a modryb annwyl. Gwraig dawel a pharchus oedd Elsie ac wrth ei bodd yn cyarfod bron yn ddyddiol yng Nghaffi Coed y Brenin gyda'i ffrind, Mair, i gael sgwrs dros goffi. Cynhaliwyd yr angladd fore Sadwrn, 13 Ebrill yn Eglwys Crist Glanogwen a mynwent Eglwys Coetmor, gyda'r ficer, y Parchedig John Mathews yn gwasanaethu. Mrs. Christine Edwards oedd wrth yr organ. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch i gyd fel teulu.

*Mr. Ronald George Lovell*
Yng nghartref Cerrig yr Afon ar 16 Ebrill, bu farw Mr. Ronald George Lovell, (gynt o Cil Caseg) yn 87 mlwydd oed - priod annwyl y ddiweddar Mrs. Barbara Lovell, a thad Barry, Graham, Stephen a Jackie. 'Roedd hefyd yn daid a hen daid hoffus. Bu gwasanaeth ei angladd yn Amlosgfa Bangor ddydd Iau, 25 Ebrill. Cydymdeimlwn â chi fel teulu.

*Mrs. Mandy Lynn Lewis*
Ar 20 Ebrill, yn ei chartref yn Lôn Sarnau, bu farw Mrs. Mandy Lynn Lewis yn 50 mlwydd oed - priod Mr. Geraint Lewis a mam garedig i Dylan, Claire, Amanda, Amy a Catherine, a merch i Mr. a Mrs. Arfon Roberts, Rachub. Bu'r angladd yn Amlosgfa Bangor ddydd Iau, 2 Mai. 'Rydym yn anfon ein cydymdeimlad atoch i gyd fel teulu yn eich profedigaeth.

**Diolchiadau**
Dymuna Mr. Nelson Skelton o Loegr a Mrs. Helen Roberts, Ffordd Ffrydlas, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt ar golli Mrs. Cynthia Skelton ar 20 Mawrth. 'Roedd yn briod, mam, nain a chwaer annwyl. Diolch am yr holl gardiau, blodau a rhoddion er cof tuag at Ymchwil Vascular Dementia. Bu angladd Cynthia yn Eglwys St. Catherine ar ddydd Mawrth, 9 Ebrill, gyda'r Parchedig Ganon Michael Butler yn gwasanaethu.

Dymuna teulu y ddiweddar Mrs. Doris Jones, 27 Maes Coetmor, ddiolch yn fawr iawn i deulu, cyfeillion a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad â hwy yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain annwyl. Diolch am y cardiau a'r rhoddion hael tuag at gronfa Cyfeillion Plas Ogwen – cyfanswm o £708. Diolch i'r Parchedig Christina McCrea am arwain y gwasanaeth ac i Mr. Gareth Williams, y trefnydd angladdau am ei wasanaeth tawel a pharchus.

**Cyfeillion Ysbyty Gwynedd**
Ar nos Iau Cablyd, sef 18 Ebrill, yng nghapel yr ysbyty, cafwyd noson o ganu gospel yng nghwmni'r Parchedig Wynne Roberts (Elvis) - noson ardderchog, a'r capel yn llawn. Ar y ffordd allan cafwyd casgliad o £440 tuag at waith y Cyfeillion. 'Rydym yn ddiolchgar i Wynne am ei gefnogaeth parod bob amser.

**Gorffwysfan**
Ar ddydd Mercher, 10 Ebrill, aeth dros 40 o aelodau a chyfeillion ar wibdaith i Gaer. Cafwyd diwrnod braf a phawb wedi mwynhau. Cofiwch roi eich enwau yn Gorffwysfan o 1 Mehefin ymlaen ar gyfer gwibdaith i Skipton ar ddydd Mercher, 3 Gorffennaf!

**Deunaw Oed**
Llongyfarchiadau i Hannah Morgan, Park Villa, ar ddathlu ei phen-blwydd yn ddeunaw oed ar 24 Mai.

# Plaid Cymru – Cangen Dyffryn Ogwen

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Gangen yng Nghefnfaes nos Fawrth 7 Mai, pan etholwyd y swyddogion canlynol am y flwyddyn i ddod: Cadeirydd, Paul Rowlinson; Is-gadeirydd, Bleddyn Williams; Ysgrifennydd, Mary Jones; Trysorydd, Neville Hughes. Diolchwyd i'r swyddogion a'r aelodau gweithgar am eu gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r aelodau rŵan yn edrych ymlaen at gynnal stondin y Blaid yn Sioe Dyffryn Ogwen, gan obeithio am sioe i'w chofio!

Y brif eitem dan sylw oedd ein hymgyrch yn yr etholiad ar gyfer Senedd Ewrop. Tan yn ddiweddar, 'roedd yn edrych yn debygol na fyddai Cymru a Phrydain yn cymryd rhan yn yr etholiad hwn. Gyda realiti Brexit mor wahanol i'r ffantasi a addawyd adeg y Refferendwm credai'r aelodau yn gryf y dylid rhoi unrhyw gytundeb o flaen y bobl. Bydd y Blaid yn ymgyrchu i gadw ein haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd a'r holl fanteision y mae'n eu rhoi i Gymru. Cafwyd canmoliaeth am waith ein Haelod Seneddol Ewropeaidd, Jill Evans, dros yr 20 mlynedd diwethaf a nodwyd pwysigrwydd sicrhau bod llais Cymru i'w glywed yn uchel yn Senedd Ewrop tra 'rydym yn aros yn aelod.

# *Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?*

## DYDDIADUR BOREAU COFFI 2019

2019

Mai
18 Cefnfaes – Gorffwysfan

Mehefin
01 Cefnfaes – Cyfeillion Ysbyty Gwynedd.
15 Cefnfaes – Eglwys Crist Glanogwen.
22 Cefnfaes – Eglwys St. Cedol, Pentir.
29 Cefnfaes – Eisteddfod Dyffryn Ogwen.

Medi
07 Cefnfaes – Cronfa Tracey Smith.
14 Cefnfaes - NSPCC
21 Cefnfaes – Eglwys Sant Tegai, Llandygai.
28 Cefnfaes – Plaid Cymru.

Hydref
05 Cefnfaes – Eglwys Crist Glanogwen.
12 Cefnfaes – Caban Gerlan.
19 Cefnfaes – Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
26 Cefnfaes – Eglwys St. Cedol, Pentir.

Tachwedd
02 Cefnfaes – Clwb Camera.
09 Festri Jerusalem – Gofal Dementia
23 Cefnfaes – Neuadd Talgai.
30 Cefnfaes – Plaid Lafur.

Pwysig
Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag.
Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon.
Bydd yn cael ei diweddaru ac yn ymddangos pob mis.
Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).

CANOLFAN CEFNFAES

**GYRFA CHWIST**
MAI 28
MEHEFIN 11 a 25
am 7:00 o'r gloch. Croeso i bawb

Carmel Llanllechid
**Te Bach**
yn y festri
**Pnawn Llun, 20 Mai**
2.30 – 4.00 Croeso i bawb

**GARDDWEST
EGLWYS ST. CEDOL, PENTIR**
Sadwrn,25 Mai
am 1.30 yn y Ficerdy

CANOLFAN CEFNFAES

**BORE COFFI
EGLWYS
ST. CEDOL, PENTIR**
SADWRN, 22 MEHEFIN
10.00 – 12.00

Marchnad Ogwen

**Mehefin 8fed**
**Cae Sioe Dyffryn Ogwen**

**Gorffennaf 13eg**
**Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm**

**Awst 10fed**
**Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm**

Bwydydd, Crefftau, Lleol

**www.marchnadogwen.co.uk**
**Facebook**

CANOLFAN CEFNFAES

**BORE COFFI
CYFEILLION
YSBYTY GWYNEDD**
SADWRN, 1 MEHEFIN
10.00 – 12.00

CANOLFAN CEFNFAES

**BORE COFFI
GORFFWYSFAN**
SADWRN, 18 MAI
10.00 – 12.00

CANOLFAN CEFNFAES

**BORE COFFI
EGLWYS CRIST
GLANOGWEN**
SADWRN, 15 MEHEFIN
10.00 – 12.00

Ysgoldy Maes y Groes
Talybont
**TE MEFUS**
**Sadwrn, 22 Mehefin**
**am 3 o'r gloch.**
(Elw at Eglwys St. Cross)

Festri Bethlehem
Talybont
**TE MEFUS**
**Nos Fercher, 3 Gorffennaf**
**am 7.o'r gloch**
(Elw at y Capel)

CYMANFA ANNIBYNWYR
BANGOR A BETHESDA
**OEDFA YSGOLION SUL**
yng Nghapel Bethlehem, Talybont
19 Mai 2019, am 10.30yb

ÔL RIFYNNAU O'R LLAIS
AR GAEL YN RHAD AC AM DDIM

o Medi 2015 hyd at Rhagfyr 2018
(ac eithrio rhifyn Hydref 2016)

Cysylltwch â Menai Jones,
Erw Faen, Tregarth.
Ffôn : 601120

**45ED SIOE
AMAETHYDDOL
DYFFRYN
OGWEN**
**Sadwrn, 8 Mehefin 2019**
**ar Gaeau Rygbi Bethesda**

# gair neu ddau

John Pritchard

**ICHTHUS**

Mae'n debyg ei fod erbyn hyn yn llai o gyfrinach nag ydoedd yn nyddiau'r Ymerodraeth Rufeinig. Bryd hynny, roedd Cristnogion yn aml yn defnyddio amlinelliad syml o bysgodyn fel symbol cudd. Roedd yn arwydd dirgel o'u ffydd a oedd yn eu galluogi i adnabod y naill o'r llall fel dilynwyr i Iesu Grist. Ym mlynyddoedd cynnar yr Eglwys, nid oedd yr awdurdodau Rhufeinig a oedd yn gwrthwynebu'r Cristnogion yn deall arwyddocâd y symbol. Mae'n debyg nad oeddent hyd yn oed yn sylweddoli fod y Cristnogion yn ei ddefnyddio. Mewn cyfnod o erlid ar bobl y Ffydd, roedd symbol cudd yn werthfawr gan ei fod galluogi'r credinwyr i adnabod ei gilydd a thystio i'w ffydd yn ddiogel.

Doedd dim angen bod yn artist i ddylunio'r symbol hwn. Roedd yn ddigon rhwydd gwneud llun pysgodyn. Dim ond llunio dau fwa oedd angen: y naill ar llall yn cychwyn wrth geg y pysgodyn ac yn croesi i ffurfio'r gynffon. Mae'n bosibl y byddai Cristion, wrth gyfarfod â rhywun dieithr, yn gwneud siâp bwa ar lawr llychlyd er mwyn i'r dieithryn os oedd yntau'n Gristion lunio'r ail fwa i gwblhau'r symbol. Er na wyddom i sicrwydd fod hynny'n digwydd y mae'n awgrym diddorol o'r ffordd y gallai'r arwydd gael ei ddefnyddio i alluogi Cristnogion i adnabod ei gilydd pan nad oedd yn ddiogel iddynt dystio'n agored i'w ffydd.

Er ei fod yn symbol cynnar o'r Ffydd, ni fu'r Eglwys Gristnogol yn ei arddel ar hyd y canrifoedd. Ond tua saithdegau'r ganrif ddiwethaf daeth yn boblogaidd eto; ac ers hynny mae'n symbol digon cyffredin sydd i'w weld ar lyfrau a phosteri a sticeri car a chrysau T ac ati. Weithiau, y symbol syml, moel yn unig a geir; ond weithiau gwelir o fewn 'corff' y pysgodyn enw Iesu, neu'r gair 'Ichthus'.

'Ichthus' ydi'r gair Groeg am bysgodyn. A'r gair hwn – ἰχθύς – sy'n dod â ni at galon pethau ac at ystyr y symbol gan ei fod yn y cyswllt hwn yn ffurfio anagram. Yn syml iawn: ἰ am Iesous; χ am Xristos; θ am Theos; ὐ am huios; ς am soter. Neu, yn Gymraeg, Iesu, Crist, Duw, Mab, Gwaredwr. Neges glir symbol y pysgodyn felly, i Gristnogion y cyfnod cynharaf ac i gredinwyr ein hoes ni yw, 'Iesu Grist, Fab Duw, Gwaredwr'.

Does ryfedd iddo ddod yn symbol poblogaidd o'r Ffydd i Gristnogion y blynyddoedd diwethaf hyn. Mae'n dweud cymaint am yr hyn a gredwn am Iesu.

# *Nyth y Gân*

**Y Carw Coch**

Y carw corniog hiraf, yn ei fan
Mynnai fod y dewraf;
Hynod fref, ef fu'r cryfaf
Ar y rhos ddiwedd yr haf.



**Ynys Enlli**

Yn ddarn cadarn mae'n codi, a llawer
Yw'r lliwiau sydd arni;
Hunllef fyddai troi Enlli
Yn un lliw, yn un â'r lli.

**Y Deintydd**

Denwyd hon gan wyddoniaeth yn ifanc
I afael deintyddiaeth;
Yn ei nerth ei roddi wnaeth
I'w rannu â'r weriniaeth.

**Mecaneiddio Byd Amaeth**

Am lwcus, daeth ymlacio o'r dyrnu
A'r diwrnod llafurio;
Yn nydd y mecaneiddio
Y botwm trwm biau'r tro.

**Hen Stôl Odro**

Ei chrefftwaith gwych a ddenodd
Ein llygaid at hen stôl,
Am hir bu edrych arni
Gan fynd â ni yn ôl.

Ar wyneb llawr y gegin
Un drithroed ydoedd hi
Â'i golwg mor werinol
Gan harddu'n haelwyd ni.

Y beudy fu yn gartref
I'r stôl am amser hir
I odro yno'r gwartheg
Am faeth y llymaf dir.

Pwy, tybed, oedd y crefftwr
A luniodd un fel hon?
Mae'n syml ei hedrychiad
A'i phren fel newydd bron.

**Dafydd Morris**

**Y Gog**

Ymwelydd â'n coedydd cain yn Ebrill
Ddaw'n ebrwydd a milain;
Deunod llawn syndod ei sain,
Iasol yw cwyn ei deusain.

**Gwanwyn**

Y gwanwyn sy'n egino
Â'i swyn brwd ar draws ein bro.
Fel awel dawel y daeth
Yn elyn i'r hen alaeth.
Iraidd fu'r bwrw gwreiddiau
A daw y rhwysg wedi'r hau;
Y cennin sy'n drwch cynnar,
Ir y dail ar frigau'r dâr;
Moli wna'r llwyni melyn
Y gloyw haul ar ruddiau'r glyn,
A hoff iawn yw'r hen ffyniant
A'i nwyf ar lan ffrydiau'r Nant.
Mae brigau fel pigau pêr
Yn tanio lliwiau tyner.
Heddiw gwyrdd yw'r meysydd gwych
Yn addo cnwd ireiddwych;
Y deffro dros y dyffryn
Yw cenlli y geni gwyn.

**Goronwy Wyn Owen**




BWRLWM HAF
Noson o Adloniant i Godi Arian
HOGIA'R BONC A'R WELSH WHISPERER
Clwb Criced Bethesda,
Nos Wener 7 Mehefin am 7.30pm
Bwyd ar gael a raffl
Mynediad £3 ar y drws, plant am ddim
Dewch i gefnogi!

## Pentir

**Cynrig a Carys Hughes**, Rallt Uchaf, Pentir, LL57 4YB. ☎ 01248 601318
E-bost: carys16@hotmail.com

**Eglwys St. Cedol, Pentir**

*Hwyl yr Wyl*

Prynhawn Sadwrn y 20 Ebrill – Sadwrn Pasg – cafwyd prynhawn llwyddiannus yn llawn hwyl yn y Ganolfan, Glasinfryn, gyda helfa Pasg ar gyfer y plant, tombola, stondin wyau pasg, raffl a gêm o Fingo hwyliog a ddaeth â'r prynhawn i ben. Diolch i bawb.

*Ffair Grefftau*

Yn Neuadd Bentref Rhiwlas ar Ddydd Sadwrn, Ebrill 13, cynhaliwyd Ffair Grefftau, gydag amrywiaeth o stondinau gan grefftwyr lleol. Bu'n ddiwrnod llwyddiannus dros ben, a hoffem ddiolch i'r stondinwyr a'r cyhoedd am eu cefnogaeth.

*Garddwest*

Cynhelir ein garddwest flynyddol eleni ar Fai 25 am 1.30yh yn Y Ficerdy, Pentir. Bydd amrywiol stondinau, yn cynnwys cynnyrch cartref, crefftau, tombola, stondin boteli, mefus a hufen, raffl, a lluniaeth ysgafn. Croeso cynnes i chwi I ymuno â ni am brynhawn o hwyl.

*Gwasanaethau'r Sul*

Mae'r gwasanaethau am 9.45yb

19.5.19. Cymun Bendigaid
26.5.19. Boreol weddi
2.6.19. Cymun pawb
9.6.19. Eglwys St. Fair, Tregarth,yr unig wasanaeth yn y plwyf- manylion i ddilyn
16.6.19. Cymun Bendigaid
23.6.19 Boreol Weddi

Mae croeso cynnes i chwi i ymuno â ni yn y gwasanaethau.

**Grugieir Moelyci**

Yn ddiweddar bu gwaith o dorri a llosgi gordyfiant eithin a grug ar Foelyci. Canlyniad hyn ydy bod mwy o borfa i ddefaid, ond hefyd mae'n hwb i fywyd gwyllt.

Mae adroddiadau yn barod yn dangos bod y gwaith wedi dwyn ffrwyth, gyda Grugieir yn fwy cyffredin y flwyddyn yma, ac yn elwa ar flagur a dail newydd y grug.

Flynyddoedd yn ôl saethwyd grugieir ar Foelyci a'r Drysgol, a chyflogid ciperiaid i ofalu am yr adar. Byddai'r ciperiaid yn difa pob creadur oedd yn debygol o aflonyddu ar y grugieir. Dywed gŵr lleol iddo weld pioden tua 1930 ac iddo ryfeddu bod ffasiwn aderyn yn bodoli. Wrth gwrs, roedd y piod yn lladrata wyau'r grugieir, a byddai'r ciperiaid yn eu saethu a dinistrio'r nythod.

Mae cofnodion yn dangos bod ciperiaid Stad Penrhyn wedi difa 464 o gigfrain a 1,988 o'r cudyll coch rhwng 1874 a 1902.

**Ras Hwyl Pentir**

Cynhelir y Ras Hwyl eto eleni ar nos Fawrth, Gorffennaf 9 am 7.00. Mwy o fanylion y mis nesaf.

**Cinio Mawr**

Y dyddiad arfaethedig ar gyfer yr achlysur yma yw dydd Sadwrn, Mehefin 22.

## Mynydd Llandygái

**Theta Owen**, Gwêl y Môr, Mynydd Llandygái ☎ 600744

**Pen-blwydd Arbennig**

Bu dathliad hapus yn Arafon yn ddiweddar -Mrs. Elna Bullock oedd yn dathlu pen-blwydd arbennig. Llongyfarchiadau i chi Elna a dymuniadau gorau.

**Gwellhad Buan**

Anfonwn ein cofion at bawb sydd ddim yn dda gan ddymuno adferiad buan i chi.

**Diolch**

Dymuna Lynda ddiolch ar ran y Clwb Ieuenctid i bawb a ddaeth i gefnogi Bingo'r Pasg. Diolch am y wyau a'r raffl, ac i Dana, Corina a Iola am eu help ar y noson.

**Diolch am Garedigrwydd**

Dymuna Helen Williams, 4 Penrhiw, ddiolch o galon am y llu cardiau, galwadau ffôn, arian a blodau, ynghyd â'r holl garedigrwydd a dderbyniodd yn ystod ei gwaeledd yn Ysbytai Gwynedd ac Eryri yn ddiweddar. Diolch o galon i bawb, - mae'n golygu cymaint!
Mae Helen adref erbyn hyn ac yn gwella bob dydd.

**Eglwys St. Ann a St. Mair**

Sul 1af a'r 3ydd: 9.30 y.b. Boreol Weddi
2ail a'r 4ydd: 9.30 y.b. Cymun Bendigaid

Diolch i bawb a gefnogodd y "Ffair Basg". Hyfryd oedd gweld y Neuadd yn brysur ar fore Sadwrn braf.

Cofiwn am bawb sy'n sâl ar hyn o bryd ac anfonwn ein cofion cywiraf atoch i gyd.
Os oes unrhyw un yn dymuno trefnu unrhyw wasanaeth arall yn yr eglwys neu dderbyn Cymun yn y cartref cysylltwch â'r Parchedig John Matthews (Bangor 364991) neu'r Parchedig Christina McCrea (Bangor 372249).

**SIOP OGWEN**
33 Stryd Fawr, Bethesda
Peidiwch anghofio am Siop Ogwen. Galwch draw!
Anrhegion a chrefftau lleol, Cardiau, Llyfrau, Coffi Poblado, Jam Cartra, CDs, Lluniau, Gemwaith, Sebon, Canhwyllau, Dillad, Golwg, Y Cymro, Llais Ogwan a llawer mwy!
Cewch archebu llyfrau Cyngor Llyfrau Cymru trwy'r siop, neu gylchgronau (e.e. Barn, Mellten, Bore Da, Y Traethodydd, O'r Pedwar Gwynt ayyb) a CDs hefyd.
Ar agor ddydd Mercher (10-2), Dydd Iau /Gwener (10-5) a dydd Sadwrn (10-3).
siop@ogwen.org
**01248 208 485**

Cofiwch alw yn
SIOP Clwb Pêl-droed Mynydd Llandygai
4 Rhes Ogwen, Bethesda
Oriau agor:
**Dydd Llun, Mercher, Iau a Gwener: 9.30 – 3.30**
**Bore Sadwrn: 9.30 – 12.00**
LLU O FARGEINION
(Elw at gostau rhedeg y Clwb)

**JOHN ROBERTS**

**Paentiwr**
**Papurwr**
**Teilsiwr**
**Symudol: 07747 628650**
**Ffôn: 01248 600995**

**Londis Bethesda**
☎ 01248 605566
**Archfarchnad hwylus**
**Gwasanaeth personol**
**gyda'r pwyslais ar y cwsmer**
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
Peiriant codi arian di-dâl
**Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr**
**7 diwrnod yr wythnos**

## Rhiwlas

**Iona Jones**, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas ☎ 01248 355336

**O gofnodion Cyngor Cymuned Llanddeiniolen**
**Rhybudd Cyfyngiadau Parcio** – Mae'n bosibl y bydd llinellau melyn dwbl yn cael eu gosod ar Stryd Wesla, Rhiwlas, ger yr Hen Eglwys.

**Biniau Halen –** Mae Cyngor Cymuned wedi cytuno i dalu am halen yn y biniau halen, er mwyn galluogi pobl i'w ddefnyddio i glirio y lonydd er mwyn mynd i'w gwaith. Gan fod gennym gytundeb gyda Chyngor Gwynedd, Clerc Y Cyngor Cymuned yn unig sydd â'r hawl i archebu halen. Felly, yn dilyn tywydd garw ddechrau'r flwyddyn, bu iddi sicrhau fod halen ar gael, a llenwi y biniau. Nid ydym wedi cael achos i'w ddefnyddio yn dilyn eu llenwi, ond mae yno ar gyfer tywydd o'r fath eto. Er hynny, mae yn ymddangos fod sawl bin yn wag, ac mae cynghorwyr pentrefi yn cadw cofnod, ynghyd a Chyngor Gwynedd. Mae sawl un wedi nodi fod yr halen yn cael ei ddefnyddio ar fynedfeydd tai, yn hytrach nag ar y lonydd yn unig. Mae cost aruthrol i'r halen yma, gan fod 42 o focsys halen yn ardal Cyngor Llanddeiniolen. Mae'r gost o'u llenwi unwaith y flwyddyn yn unig yn £2,700. Felly y cais gan Y Cyngor Cymuned yw i chi ddefnyddio'r halen yn ofalus, pan mae wir angen, ac ar y lonydd yn unig.

**Llongyfarchiadau**
Yn ddiweddar cafwyd noson wobrwyo Gwerin Cymru ac enillydd y Gân Gymraeg orau oedd Lleuwen Steffan gyda'i chân am Bendigeidfran. Dewiswyd yr enillwyr o restr hir, a luniwyd gan y panel enwebu, a oedd yn cynrychioli sawl agwedd o'r byd cerddorol. 'Roedd pedwar ar y rhestr fer ymhob categori, ac 'rydym yn falch o dy lwyddiant, Lleuwen. Er dy fod yn byw yn Llydaw ers tro bellach, hogan o Rhiwlas wyt ti o hyd!

**Dathlu**
Ym mis Ebrill dathlodd Einir Williams, Cefn Coch, ben-blwydd arbennig. Mae'n gweithio yn yr ysgol ers sawl blwyddyn ac yn Anti Einir i lawer o blant y pentref. Yn sicr, bydd yr anrheg o docyn teithio yn hwylus iawn. Mae Einir am ddiolch i'r teulu a ffrindiau am y cardiau a'r rhoddion ar yr achlysur.

Dathlodd Gwen Williams, Bro Rhiwen, ben-blwydd arbennig hefyd - ar Ebrill 23ain 'roedd yn 80 oed, a derbyniodd nifer dda o gardiau ac anrhegion. Cafwyd te bach iddi hi a'r teulu yn Llanberis hefyd. Mae am ddiolch i'r teulu a ffrindiau am eu caredigrwydd ar yr achlysur.

**Noson gyda'r Welsh Whisperer**
Cafwyd noson hwyliog iawn yn y Neuadd gyda'r diddanwr yma - noson a drefnwyd gan bwyllgor y Neuadd. Ar ddechrau'r noson cafwyd eitemau gan blant yr ysgol, ac 'roedd pawb wedi mwynhau eu canu yn arw. Dilynwyd hyn gan Dafydd Hedd, disgybl yn Ysgol Dyffryn Ogwen, sydd yn fedrus gyda'r gitar. Cawsom yr holl ffefrynnau gan seren y noson, a rhai llai cyfarwydd hefyd ,ond rhaid oedd diweddu gyda 'Loris Mansel Davies' gyda phawb yn ymuno. Diolch i bawb a fynychodd y cyngerdd, ac i aelodau'r pwyllgor am wneud y neuadd yn ddeniadol, paratoi lluniaeth ac am gario'r beliau, - braf oedd gweld y plant yn eistedd arnynt!

**Merched y Wawr**
Croesawyd ni i gyfarfod mis Ebrill gan Gwen, llywydd y mis. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Jean, Olwen, Annes a Rhiannon. Braf oedd croesawu Elina'n ôl wedi cyfnod o salwch, ac anfonwyd ein cofion at Jini. Trafodwyd ein noson allan ym Mis Mehefin - yr ysgrifennydd i wneud ymholiadau am Pant Du. Hefyd mae angen is-ysgrifennydd -cawn drafod hyn yn ein cyfarfod nesaf. Cyflwynodd Gwen ein gwraig wadd, sef Megan Tomos, o Lanllechid yn awr,ond wedi byw yn Rhiwlas am wyth mlynedd. Testun ei sgwrs oedd Gwreiddiau a Geiriau - teitl addas gan iddi ymddiddori yn achau'r teulu a thrin geiriau yn ei swydd fel cyfieithydd yn y Brifysgol ym Mangor. Roedd gan ei hen,hen daid, William Hughes, Cae Gwigin gysylltiad â'r ardal ac 'roedd yn awdur, efengylwr ac yn gysylltiedig â'r capel cyntaf ym Mangor. Aeth ei thaid am gyfnod i Unol Daleithiau America ac aelod arall o'r teulu i Batagonia, ac mae'r canwr Rene Griffiths yn un o'i ddisgynyddion. 'Roedd hanesion diddorol hefyd am gysylltiadau'r teulu â Stad Rhug. Diolchodd Gwen i Megan am noson ddifyr, ac i Deri am ofalu am yr ochr dechnegol cyn mynd wedyn i ymarfer y côr. Diolch hefyd i Helen a Gwen am baratoi'r baned.

**Clwb Rhiwen**
Bu Ann yn ymweld â Malta yn ddiweddar ac yn amlwg bu iddi fwynhau ei hun yno. Cafwyd trafodar y rhaglen am y misoedd nesaf. 'Roedd yn braf gweld Myra yn ôl wedi cyfnod o anhwylder yn ddiweddar. Dilys a Iona oedd yn gyfrifol am y baned ac Ann a enillodd y raffl.

**Neuadd Bentref Rhiwlas**
Cynhelir Y Cyfarfod Blynyddol Nos Fawrth, Mai 21ain am 7 o'r gloch.

**Hyfforddiant peiriant diffib**
Nos Fawrth, 19eg Mawrth, cafodd trigolion Rhiwlas gyfle i ymuno mewn sesiwn hyfforddiant i ddysgu sut i ddefnyddio'r peiriant diffib newydd (sydd wedi ei leoli yng nghiosg Bro Rhiwen). Arweinwyd y sesiwn gan Tomos Hughes. Diolch iddo hefyd am hyfforddi disgyblion o Rhiwlas sydd yn mynychu Ysgol Dyffryn Ogwen yn ystod bore, ac yna disgyblion Ysgol Gynradd Rhiwlas yn y prynhawn, cyn ymuno gyda'r criw gyda'r nos.


JR SGAFFALDIAU Cyf. SCAFFOLDING Ltd. JR
YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk
Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)
CITB

Cyngor Gwynedd - Cronfa Benthyciad Canol Tref Bethesda

**Ydych chi'n berchen eiddo gwag yng nghanol Bethesda? Mae'n bosib eich bod yn gymwys am fenthyciad di-log i adnewyddu eich eiddo.**

Am fwy o wybodaeth ac i dderbyn ffurflenni cais cysylltwch gyda Thîm Cefnogi Busnes Cyngor Gwynedd:

01286 679231 busnes@gwynedd.llyw.cymru



Llywodraeth Cymru Welsh Government

## Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda
☎ 600853
Barbara Jones,
1 Dol Helyg, Talybont ☎ 353500

**Croeso**
Croesawn Amanda a Steve o Aberystwyth i Cap Coch. Mae'r croeso yn hwyr, mae'n rhaid cyfaddef, ond y dymuniadau yr un mor gynnes. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn Nhalybont.

**Gwellhad buan**
Mae Alison, 23. Cae Gwigin, wedi bod yn sâl yn ddiweddar, ond yn teimlo'n well o lawer erbyn hyn. Gan bwyll, Allie!

**Ysbyty**
Anfonwn ddymuniadau gorau i Llew ac Enfys, 2, Cae Gwigin. Ymwelodd Llew ag Ysbyty Gwynedd, yn dilyn codwm yn y tŷ. Drwy drugaredd, ni thorrodd yr un asgwrn. Un da ydi Llew; 'dydyn nhw ddim yn 'gwneud nhw cweit yr un peth y dyddiau hyn. Ond, ef fyddai'r cyntaf i gydnabod y gofal ardderchog mae o'n 'gael gan Enfys a'r teulu oll.

**Ar y Teledu**
Braf oedd cael cip ar deulu fferm Glan Môr Isaf, fydd yn cymryd rhan yn y rhaglen 'Garddio a Mwy' ar S4C. Edrychwn ymlaen at glywed mwy o hanes Owen, Elin a'r hogiau, Gwion, Eban a Wil yn ystod y gyfres.

**Arholiadau**
Hwyl fawr i'r plant sydd wrthi yn dewis eu pynciau ar gyfer T.G.A.U. Dydi hi ddim yn waith hawdd. Am wn i nad oedd hi'n haws yn ein hamser ni, pan oedd yna dipyn llai o bynciau. Pob bendith arnynt, beth bynnag.

**Eglwys St Cross, Maes-y-Groes**
*Gwasanaethau'r Sul:*
Mai 19eg - 9.45 a.m.
Mai 26ain - 11.00 a.m.
Mehefin 2il - 11.00 a.m.

Mehefin 9fed - ***DIM*** gwasanaeth yn St Cross - pawb yn cael eu gwahodd i Eglwys y Santes Fair, Gelli, am 10.30/11.00 a.m. ar gyfer gwasanaeth Conffirmasiwn gyda'r Esgob, ac i ddathlu 150 mlynedd yr Eglwys. Cofiwch, os oes gennych luniau o'r eglwys dros y blynyddoedd (pobl, gwasanaethau - bedydd, priodas - neu weithgareddau eraill), mi fuasai Rosemary yn ddiolchgar iawn cael eu benthyg ar gyfer arddangosfa.
Mehefin 16 - 9.45 a.m.
Mehefin 23 - 11.00 a.m.

*Gweithgareddau a gwasanaethau eraill:*
Dydd Mawrth, Mai 28ain - 7.00 p.m, Ysgoldy, Tal-y-bont
Sgwrs: "New Zealand: One World - Two People" - Dewch i glywed, a gweld trwy lygaid dau dwrist, sut y mae cymdeithas, a oedd gynt wedi ei gwahanu, yn gyrru ymlaen ar hyd un ffordd. Fe fydd y Parchedig a Mrs Matthews yn siarad am eu profiad o ymweld â Seland Newydd - Gwlad y Maori - a'r Eglwys Anglicanaidd Saesneg a Maori yn y wlad honno.
Dydd Iau'r Dyrchafael, Mai 30ain: Gwasanaeth yn Eglwys St Tegai - 6p.m.
Dydd Mawrth, Mehefin 4ydd: Bore Coffi, Ysgoldy - 10.30 a.m.
Dydd Sadwrn, Mehefin 22ain: Te Mefus, Ysgoldy - 3.00 p.m.
Dydd Sadwrn, Gorffennaf 13eg: Garddwest y Tair Eglwys, Ficerdy Pentir

**Capel Bethlehem**
*Oedfaon*
Mai 19: Cymanfa/Oedfa Ysgolion Sul ym Methlehem am 10.30.
Mai 26: Gweinidog.
Mehefin 02: Mr. Dafydd Iwan.
Mehefin 09: Y Gweinidog.
Mehefin 16: Parchg. Pryderi Llwyd Jones.
Mehefin 23: Y Gweinidog.
Mehefin 30: Parchg. Trefor Lewis.
Oedfaon am 2 o'r gloch oni nodir yn wahanol. Croeso cynnes i bawb. Ysgol Sul am 10 yb. Croeso i aelodau newydd.


*Te Mefus*
Cynhelir ein Te Mefus blynyddol eleni ar nos Fercher, 3 Gorffennaf am 7 o'r gloch.



# Y Dyddiadur toriadau (9)

## Detholiad gan Derfel Roberts

*(sef adroddiadau o bapurau Newyddion Cymraeg fel 'Y Cloriannydd' a rhai eitemau eraill wedi eu gludio ar dudalennau dyddiadur bychan 10cm x 6cm [4m x 2½m] yn dyddio o 1933, oedd yn eiddo i John Owen, Garnedd Wen, Llanfairpwll.)*


Ond fel y sylwyd yn barod, bwriada'r P... ...or ddatblygu eto yng nghyfeiriad cerddor- ...aeth, llenyddiaeth, a diwydiant. Llongyf- ...archwn y pwyllgor am eu hymroddiad a'u gweledigaeth, a dymunwn Dduw'n rhwydd iddynt yn y dyfodol.

Fe ofala y cadeirydd, Mr W. H. Pritchard, a Mr McHarg fod yr adran filiardyddol yn blod- euo, a Mr W. D. Owen, yr ysgrifennydd ...m- roddgar, a Mr W. Jones, ein trysorydd di- ogel, fod materion ariannol y neuadd mewn sefyllfa lewyrchus. Mae'r swyddogion a'r pwyllgor yn gweithredu yn ddeheuig a phwyll- og, ac nid y lleiaf o'u gweithredoedd daionus ydyw cyflenwi addoldy y M.C. a golau'r try- dan. Hwyl dan eich aden yw dymuniad pawb a gar y gorau mewn llen a cherdd a phob diwylliant Cymreig.

A ganlyn sydd restr o'r personau a enwyd i gynrychioli ar Bwyllgor y Rheolwyr:—Ym- ddiriedolwyr: Mri W. H. Pritchard, William Jones, W. T. Prytherch, Thomas Edwards, a J. Defferd. I gynrychioli'r gwahanol enwad- au; yr Eglwys, Mr W. A. Thomas; y M.C., Mr W. R. Jones; Methodistiaid, Mr A. Hale Owen; Bedyddwyr, Mr Henry Williams. Cyngor Plwyf Llanfairpwll: Capt. Thomas, Mr J. Owen, a Mr Owen Williams; Cyngor Plwyf Llanedwen, Mr Daniel Evans; Sefydliad y Merched, Miss Essyllt Jones a Lady Morris- Jones; Sefydliad y Cyn-Filwyr, Mri J. Parry, Christmas Williams, ac A. Anderson; aelod- au'r Neuadd, Mri Thomas Pritty, Charles Edwards, J. McHarg, a Mrs Williams, Miny-

PWLLGWYNGYLL

HEN RIGYMAU.

Yn y flwyddyn 1908 gofynnais i blant yr ysgol ysgrifennu hen benillion telyn a hen rigymau o'u cof ar bapur i mi; gwnaethant hyn mewn hwyl ddifyrus, a chesglais innau'r papurau, ac yna gofynnais i eneth neilltuol o'r dosbarth eu copio mewn llyfr gyda'i gil- ydd. Trawodd fy llygaid ar y casgliad hwn ddoe, a phleser mawr imi oedd darllen drost- ynt eto. Yn eu mysg ceir rhai penillion o safon lenyddol uchel geir yn y casgliadau cy- hoeddedig, ond nid at y rhai hynny y bwriad- af alw eich sylw. Dyma rai a hoffai y mwy- afrif o'r plant:—

A fuoch chwi 'rioed yn morio?—
Do, mewn padell ffrio;
Chwythodd y gwynt fi i Isle o' Man,
A dyna lle 'roeddwn i'n crio.

Gyrru, gyrru i Gaer
I briodi merch y Maer;
Gyrru, gyrru adra,
Wedi priodi er ys dyddia.

A welsochi wynt, a welsochi wlaw?
A welsochi dderyn bach ffordd draw?
A welsochi ddyn a bwtsias lledar
Yn saethu llong i frenin Lloegar?

Ymhlith y penillion a'r rhigymau i blant a gynhwyswyd yn y dyddiadur (wele Bennod 8) mae ambell un tra chyfarwydd fel ***'Dacw mam yn dŵad'*** ond mae eraill llai cyfarwydd fel y cyntaf isod. Dyfynnir hwy fel maen nhw'n ymddangos yn y Dyddiadur Toriadau heb ymyrryd â'r iaith na'r atalnodi.

**Mae gen i hanes bychan doniol**
**Am ryw lanc yng nghoed y Faenol**
**Mynd i chwilio am ei gariad,**
**Methu'n glir a'i chael i siarad.**

Ac yna, yn annisgwyl braidd, ceir pennill am un o gymeriadau Dyffryn Ogwen, sef Robat Jones Gwich, a dyma fo;- (wrth gwrs gan mai plant a'u hysgrifennodd i lawr oddi ar eu cof nid oes sicrwydd bod pob llinell neu air fel y dylai fod.)

**Robin Jones y Gwich sydd yn fachgen tlawd**
**Ennill ei damed wrth gario blawd,**
**Cario blawd ac Indian Corn,**
**Am rhyw damed i Elin Horn.**

Yn y pennill nesa' ceir adlais o **'Fuoch erioed yn morio..'**

**Aeth tri gŵr doeth o'r Dyffryn**
**I'r môr mewn disgil fenyn,**
**Pe basa'r ddisgil honno'n gryfach,**
**Mi fasa nghan yn llawer hirach.**

Ac yna pennill sy'n debyg iawn i un o'r hen ganeuon a genid wrth berfformio dawns werin:-

**Merched bach y pentra**
**Sy'n gwisgo capia lasia,**
**Yfed te a siwgr gwyn**
**A chadw dim i'r llancia.**
**Cic yn ôl a chic ymlaen**
**Ceirch i hen geffyla.**

Yn y casgliad mae un rhigwm hynod o gyfarwydd ond mae un gair od iawn yn cael ei ddefnyddio ynddo a dyna pam y dywedwyd uchod bod rhaid cofio mai plant sy'n eu hadrodd oddi ar eu cof.
Dyma fo:-

**Maen nhw'n dwedyd ac yn son,**
**Mod i'n caru yn Sir Fon,**
**Minnau sydd yn ffyddlon garu**
**Dros y dwr yn Sir Garnari.**

Mae ambell un yn ddigon swta,

**Lleuad yn ola, plant bach yn chwara,**
**Lladron yn dwad dan weu sana;**
**Amen, medda'r ffon,**
**Dwgyd deuswllt o siop John.**

Ac yn olaf y tro hwn;
**Ddoi di lawr at Capel Wesla,**
**I roi cweir i blant Rhos Isa?**
**Beth wyt ti'n gofyn peth mor wirion?**
**Cofia'r bwgan yn Bryn Tirion.**


**Gareth Williams**
**Trefnydd Angladdau**

**Crud yr Awel**
**1 Ffordd Garneddwen**
**Bethesda**

**Ffôn: (01248) 600763 a 602707**

**GWASANAETH DYDD A NOS**

**Elwyn Jones & Co**

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

*Swyddfeydd eraill:*
*Llangefni (01248) 723106* · *Porthaethwy (01248) 719517* · *Benllech (01248) 852782*
*Caernarfon (01248) 673616* · *Pwllheli (01758) 703000*


## Marchnad Ogwen

Croeso cynnes i chi fel arfer i Farchnad Ogwen mis Mehefin – ond nid yn ein cartref arferol yn Neuadd Ogwen! Fe fyddwn wrth gwrs yn ein pabell ar gae Sioe Dyffryn Ogwen.

Mae un person lwcus yn mynd i ennill taleb Marchnad Ogwen gwerth £25 ar ddiwrnod y Sioe. Ewch i'n tudalen Gweplyfr i weld sut mae cystadlu. Y dyddiad cau yw'r 1af o Fehefin.

Oherwydd diffyg lle yn y babell, ni fydd Stondin Elusen ym mis Mehefin. Mis Ionawr nesaf yw'r cyntaf sy'n rhydd.

Mae gwybodaeth lawn am y Farchnad ar ein gwefan www.marchnadogwen.co.uk ac ar Gweplyfr.

Croeso cynnes i'r babell ar Fehefin 8fed.

# Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, 13 Hen Barc, Llanllechid, Bangor, LL57 3RS. 01248 605582 a 07887624459 henbarc13@gmail.com

**Capel Carmel**

*Trefn Gwasanaethau ( am 5.00yp oni nodir yn wahanol.)*

Mai 19: Oedfa Ysgolion Sul (Bethlehem am 10.30yb)
Mai 26: Oedfa Bedydd – Gweinidog. (3.15yp.)
Mehefin 2: Gweinidog (Cymun).
Mehefin 9: Parch. Glenys Jones.
Mehefin 16: Parch. Dewi T. Morris.

Ysgol Sul am 10.30yb.
Clwb Dwylo Prysur bob nos Wener am 6.30.
Te Bach. Dydd Llun, Mai 20. (2.30 – 4.00yp.)
Croeso cynnes i bawb..

Anfonwn ein cofion fel Eglwys at yr aelodau sy'n sâl , boed gartref neu yn yr ysbyty.

*Te Bach Mis Ebrill*

Mi gawsom ni brynhawn difyr iawn yn mwynhau te a lluniaeth ysgafn wedi'i baratoi gan rai o'r merched. 'Roedd yr elw i'w anfon i Gronfa Ela Williams, sydd yn un o blant yr Ysgol Sul yma. Mae Ela yn yr Almaen yn derbyn triniaeth ar hyn o bryd. Diolch i bawb a wnaeth gyfraniad ariannol, ac a gyfrannodd fwyd neu nwyddau i'w gwerthu. Diolch i un o'n haelodau ni, sef Mrs. Glenys Jones, am rodd hael adeg ei phen-blwydd yn 90 oed. Diolch i Mrs. Arfona Edwards am wau planced eto ac i Mrs. Nia Williams am wau tegan meddal o fand-un-dyn arbennig o ddoniol a del. Diolch i bawb am eu cefnogaeth. Elw'r prynhawn oedd £450. Dymuniadau gorau i Ela a'i theulu yn yr ysbyty yn yr Almaen.

*Yr Ysgol Sul*

Thema'r mis oedd "Diolch am ein Cartrefi". Cafodd y plant hynaf ychydig o hanes Madagascar, gan gymharu'r wlad honno â'n gwlad ni ein hunain. Aethom i sôn wedyn am ein cartrefi ni yng Nghymru, a mynd i weld tai amrywiol o amgylch Rachub. 'Roeddem ni'n sylwi pa mor fawr ydyw'r Capel, a gweld maint y gwahanol adeiladau sydd mor nodweddiadol o'r pentref, fel ffermdy'r 'Rynys, y Royal Oak a'r tai lliwgar i fyny Caellwyngrydd. Bydd y plant yn gwneud lluniau ohonynt yn ystod yr wythnosau nesaf yma.



**Dyma Leusa Cadi a Catrin o flaen hen siop y crydd ar allt Caellwyngrydd.**

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn â Mrs Young, 48 Maes Bleddyn, Rachub a'i theulu wedi marwolaeth ei gŵr Frank ar ddiwedd mis Ebrill yn Ysbyty Gwynedd.

**Clwb Llanllechid**

Cynhaliwyd y clwb prynhawn dydd Mercher, Ebrill 24ain. Croesawyd pawb i'r cyfarfod. Anfonwyd ein cofion at Blodwen sydd yn Ysbyty Eryri - wedi cael clun newydd ar ôl syrthio. Mae Margaret Swift wedi bod yn yr ysbyty hefyd, ac 'roeddem yn falch ei bod digon da i fod yn bresennol. Clywsom fod Glenys Hen Barc wedi anafu ei braich. 'Roeddem yn falch fod Glenys Rowlands yn bresennol ar ôl bod yn sâl. Cydymdeimlwyd gyda hi ar golli ei chwaer. Yna rhoddwyd y prynhawn drosodd i'r gŵr gwadd, sef Dr. John Elwyn Hughes, Bethel. 'Doedd dim angen ei gyflwyno gan fod pawb yn ei adnabod. Cawsom brynhawn diddorol iawn yn ei gwmni yn sôn am hen lyfrau a hen ddywediadau-sut i goginio, gwneud gwinoedd a hen feddyginiaethau, a hefyd sut i drin gowt a dolur gwddw gyda saim gŵydd a hosan. Cafwyd llawer o chwerthin a synnu at wahanol bethau a oedd yn digwydd ers talwm. Diolchwyd iddo am ddod atom - pawb wedi mwynhau yn arw. Gwnaethpwyd y te gan Margaret Rees Williams ac Eurwen Williams. Rhoddwyd y raffl gan Margaret Rees Williams, a Vera oedd yr un lwcus. Bydd y cyfarfod nesaf ar Fai 8 fed.

**Clwb Hanes Rachub a Llanllechid**

Ffrwyth gwaith ymchwil diddorol a gawsom yn y Clwb Hanes ym mis Ebrill, sef 'Cipolwg ar rai o gerddorion Rachub a Llanllechid' gan Mr Caleb Rhys Jones. Fel is-arweinydd ac unawdydd gyda Chôr Meibion y Penrhyn, mae ei ddiddordeb angerddol yn hanes cerddoriaeth yr ardal yn hollol amlwg. Cyfeiriodd at Ddyffryn Ogwen [gyda Llanidloes a Rhosllannerchrugog ] fel un o'r tri lle mwyaf cerddorol yng Nghymru yn ystod y ddeunawfed ganrif. Soniodd am gymeriadau dylanwadol yn hanes cerddoriaeth y Dyffryn, fel Robert Williams Cae Aseth, a lafuriodd am tua wyth mlynedd i godi safon cerddorol yr ardalwyr, cyn cael ei ladd mewn damwain yn y chwarel. Cyfeiriodd at Robert Moses a Chymdeithas Cantorion Carneddi, a deithiodd ledled y wlad yn perfformio, gan dderbyn canmoliaeth gan neb llai na John Elias o Fôn. Clywyd am y cymeriad arbennig 'Tanymarian', - gŵr na chafodd ysgol ffurfiol erioed, ond ef oedd y cyntaf erioed i ysgrifennu oratorio yn Gymraeg. Bu'n arwain corau mawreddog, e.e. 500 o gôr yng Nghapeli Bethesda a Bangor gyda chynulleidfaoedd o tua 2000! Roedd cymeriadau fel Eos Llechid ac Alawydd yn astudio rheolau cerddoriaeth, a chyhoeddodd Alawydd lyfr ar ramadeg cerddoriaeth yn arbennig i bobol Bethesda! Cafodd côr Eos Llechid wahoddiad i ganu i'r frenhines Fictoria yng Nghastell Penrhyn! Yn ôl yr hanes, derbyniodd y côr hwn gwpan arian [gwerth tua £150 ar y pryd] gan Fictoria, ond ei bod wedi ei 'chadw'n saff' yn y castell. Tybed a ydi hi'n bryd i'r cwpan weld golau dydd unwaith eto? Diolch, Caleb, am y sgwrs ddifyr, a'r holl wybodaeth!
Cofiwch am ein cyfarfod nesaf, Mai 29, pan cawn drafod 'Trigolion Maes Bleddyn.'

SAMARIAID
Mae
Llinell Gymraeg
0808 164 0123
ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Arfbais Douglas Arms
Cwrw Casgen - Gardd Gwrw
Noson Cwis Yr ail nos Fawrth bob mis – 20:00
Oriau Agor
Llun - wedi cau
Mawrth – Gwener 18:00 – 23:00
Sadwrn 15:30 – 00:00
Sul 13:00 – 15:00 a 20:00 – 23:00
douglasarmsbethesda.com
01248 600219

**Clwb Hanes Rachub a Llanllechid**

**Nos Fercher, Mai 29**
am 7 o'r gloch
yn Festri Capel Carmel.
Byddwn yn trafod
'Trigolion Maes Bleddyn'
CROESO CYNNES!

# Llechi Cerfiedig Dyffryn Ogwen

Rwy'n siŵr fod Bethesda wedi croesawu'r arddangosfa a'r gweithdai ardderchog a drefnwyd gan Sian Owen sydd wedi dod â diddordeb newydd yn llechi cerfiedig Dyffryn Ogwen, fel yr adroddwyd yn Llais Ogwan ym Mis Chwefror. Bydd gan eich darllenwyr ddiddordeb mewn clywed bod llechi wedi'u cerfio i'w cael mewn mannau pell - hyd yn oed yn Awstralia. Yn ddiweddar, cefais e-bost gan rywun yn Awstralia a oedd eisiau gwybodaeth am y llechi cerfiedig. 'Roedd wedi dod ar draws enghraifft o ddelwedd gerfiedig isel o long mewn hwyl lawn, a dywedodd ei bod yn dod o Ddyffryn Ogwen, a gynigiwyd ar-lein gan werthwr hen bethau – yna cafodd gopi o 'Llechi Cerfiedig Dyffryn Ogwen' gan Gwenno Caffell. 'Roedd yn meddwl tybed a oedd arddull cerfio isel, yn hytrach nag arddull linellol syml, yn gyffredin yn y traddodiad o gerfio llechi yma. Anfonais ddelweddau iddo o rai o'n llechi ni i gadarnhau bod yna enghreifftiau o'r un fath yma, ond dywedais nad oedd y rhain mor gyffredin. Ar hyn o bryd mae'n ysgrifennu llyfr ar gyfer Cangen Willunga o Ymddiriedolaeth Genedlaethol, De Awstralia: 'Fragments of Time: The Lives and Works of the Willunga Slate Carvers'. Mae wedi addo anfon copi o'i lyfr ac ymweld â Bethesda mewn blwyddyn neu ddwy pan fydd ym Mhrydain, pryd y gall ddweud mwy wrthym am draddodiad Willunga. 'Doedd gen i ddim syniad bod yna chwareli llechi na cherfio llechi yn Ne Awstralia (rhwng c1850-1890) - efallai bod rhai o'ch darllenwyr gyda pherthnasau yn Awstralia eisoes yn gwybod hyn – Cernywaidd yn bennaf oedd y gweithwyr.



*Lle tân llechi wedi ei gerfio (Willunga, Awstralia)*

Mae gwrthrychau llechi cerfiedig bellach i'w cael mewn gwerthiant 'treen' (eitemau bach o natur addurnol neu ddomestig a wneir fel arfer o bren, ond weithiau mewn deunyddiau eraill, fel llechen), yn aml gyda phrisiau uchel iawn. Yn ddiweddar 'roeddwn yn ymweld â chartref yn Aberhonddu, De Cymru, lle gwelais 'gist ddroriau' cerfiedig bach ar y silff ben tân – 'doedd y perchennog yn gwybod fawr ddim am yr eitem na'i tharddiad tebygol o Ddyffryn Ogwen. 'Roedd wedi ei brynu gan fasnachwr dodrefn adnabyddus a deliwr hen bethau yn Ne Cymru. Mae'n debyg bod eitemau o'r fath, fel lle tân llechi cerfiedig, wedi cael eu trysori ar un adeg mewn llawer o gartrefi yn Nyffryn Ogwen, ond wedyn, gyda newidiadau mewn ffasiwn a gwres canolog, teuluoedd yn symud neu wasgaru, mae'r atgofion diriaethol yma o fywyd y chwareli llechi yn cael eu taflu allan, yn llythrennol – wedi'u gwasgaru a'u malu, neu'n dod yn lwybrau gardd neu'n ymylon. Ond mae llawer wedi goroesi - nid yw llechi mor hawdd eu torri - ac unwaith eto mae nhw'n cael eu trysori. Gyda'r cais am statws treftadaeth llechi Unesco bellach yn mynd ymlaen, deallaf fod cynlluniau i dynnu sylw unwaith eto at yr agwedd hon o hanes gwaith a domestig Dyffryn Ogwen. Mae gan yr amgueddfa ym Mangor (Storiel) gasgliad cynrychioliadol o lechi ac yn fuan gobeithir y bydd gwefan Storiel yn cynnal catalog gweledol o'r gelfyddyd yma.



*Cist ddroriau (Aberhonddu)*

**Jeremy Yates**

*(Diolch yn fawr i Jeremy am yr erthygl hynod ddiddorol hon. [Gol.])*

# Carneddi

**Diolch**
Mae Marian Davies, 75, Ffordd Carneddi, yn dymuno diolch yn fawr i'r teulu, ei ffrindiau a'r cymdogion am yr holl negeseuon yn cynnig cymorth ac yn mynegi dymuniadau da a dderbyniodd yn dilyn triniaeth lawfeddygol yn ddiweddar. Cafodd Marian nifer fawr o gardiau ac anrhegion hefyd, ac mae'n dda gallu dweud ei bod yn gwneud cynnydd ardderchog wedi'r llawdriniaeth.
Mae pawb yn Carneddi yn anfon eu cofion ati hi a'r teulu.

**Pobl leol yn mentro**
Dechreuodd cyfres newydd o raglenni ar HTV Cymru o'r enw 'The Village'. Mae'r gyfres yn cyflwyno hanes pentref 'Eidalaidd' Portmeirion, sy'n enwog dros y byd, ac yn dynfa i ymwelwyr o bell ac agos. Un o'r cymeriadau sy'n cael ei gyflwyno ar y rhaglen yw Gwynedd Roberts (Gwynedd Fawr) o Carneddi. Fo ydy'r pen garddwr a rheolwr stad Portmeirion, a gellir ei glywed yn trafod gerddi'r pentref hudolus hwnnw ar y rhaglen 'Galwad Cynnar' gyda Gerallt Pennant ar foreau Sadwrn.

Yn ogystal â'i brysurdeb yn ei waith ac ar y cyfryngau, mae Gwynedd yn un o gyfarwyddwyr Bragdy Ogwen, sy'n cynhyrchu cwrw dan yr enwau *Caradog, Chwalfa* a *Tryfan*. Mae'n hyfryd gweld pobl leol yn dewis mentro i fuddsoddi yn eu hardaloedd eu hunain, ac mae Menter Ogwen a'r llu prosiectau a arweinir gan y criw hwnnw yn haeddu diolch gan bawb am ddangos y ffordd i ni.

**Triniaeth yn yr Almaen**
Erbyn y byddwch yn darllen hwn bydd Ela Williams, 7 oed, o Gilfodan, wedi dechrau ar gwrs o driniaeth yn Essen, Gorllewin yr Almaen. Cafodd Ela lawdriniaeth yn Ysbyty Alder Hey, Lerpwl yn gynharach eleni, ond mae'n gorfod cael triniaeth 'proton' arbennig yn Essen, lle mae uned arbenigol.

Mae pawb yn yr ardal yn dymuno gwellhad llwyr a buan i ti Ela, a gobeithio y cawn dy weld adre yn fuan, ac yn ôl yn yr ysgol efo dy ffrindiau.

# Caerhun a Glasinfryn

**Cylch Glasinfryn**
Pleser oedd cael cwmni Cynrig Hughes yn y Cylch nos Fercher, Ebrill 10. Aeth Cynrig a'i wraig, Carys i Batagonia, ar ôl olrhain hanes teulu o Riwlas yn dilyn llythyr a ddaeth i feddiant Cynrig gan ddwy wraig o'r pentref. 'Roedd Cynrig wedi trefnu arddangosfa o hen luniau yn y Neuadd yn Rhiwlas ac fe ddaeth y merched yno i ymweld. Yr oedd y llythyr yn cyfeirio at gysylltiad â theulu fu yn byw yn yr hen Swyddfa Bôst yn y pentref. Ysbrydolwyd Cynrig i ymchwilio i hanes y teulu a darganfyddodd mai Richard Lewis Owen a'i deulu o saith o blant fu'n byw yno ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf. Yn y flwyddyn 1911 ymfudasant i Batagonia. Felly daeth yr awydd i fynd ar daith i Batagonia i olrhain hanes y teulu. Diddorol iawn fu canlyniad yr ymchwil, a chafwyd taith hynod o bleserus yn ymweld, a chael peth o hanes Richard Owen a'i deulu yn y Wladfa.

Cawsom fwynhad yn gwrando ar yr hanes, a diolch i Cynrig am ei ddiddordeb yn dilyn cysylltiadau ardal Rhiwlas.

Trefnwyd y baned gan Ann a Christina, a diolchwyd i Cynrig gan Jean - hithau yn cofio am deulu ym Mhenrhosgarnedd flynyddoedd yn ôl gyda chystylliadau â'r teulu yn Rhiwlas.

"Garddio bywyd gwyllt" fydd sgwrs Anna Williams o Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn y Ganolfan am 7yh ar Fai 8. Yna ar Fehefin 12, daw Sophia Ingham , Artist Tecstiliau, sydd yn byw yn lleol, atom i roi arddangosfa a sgwrs ar wehyddu "Sgyrsiau mewn lliw". Croeso cynnes i bawb !

**Grŵp newid hinsawdd**
Mae ymgyrch ar droed yn yr ardal i wneud ymdrechion i gyfrannu tuag at newid hinsawdd yn yr amgylchfyd. Mae llawer o bobl dros y byd bellach wedi cael eu hysbrydoli i newid eu ffordd o fyw gan Greta Thunberg, merch 16eg oed o Sweden sydd wedi bod yn protestio ac annerch llywodraethau gwledydd Ewrop. Yn y cyfarfod cyntaf o'r Grŵp, a gynhaliwyd yn y Ganolfan, trafodwyd llawer o syniadau a gweithgareddau y buasem ni yn yr ardal yn gallu eu gwneud. Yn deillio o'r cyfarfod mae criw am fynd ati y Sul 1af o'r mis i hel sbwriel. Yn ystod y mis diwethaf casglwyd 23 o fagiau sbwriel o Felin Hen i Waen Wen gan gynnwys teledu, teiars, beic cadw'n heini, ayb !! Os hoffech ymuno – cyfarfod yn Maes Parcio y Ganolfan am 10 yb, - mae bagiau bin a ffyn codi ar gael, wedi'u rhoi gan Cadw Cymru'n Daclus. Mae criw arall wedi clirio mieri a thyfiant gwyllt ar y ffordd i mewn i'r pentref, gyda'r bwriad o wneud gardd flodau gwyllt a fydd o fudd I wenyn. Mae cynllun ar y gweill hefyd i glirio Jac y Neidiwr (Himalayan Balsam) o Afon Cegin. Beth amdani ? Dowch i ni ymdrechu i gael ardal dwt fydd yn rhydd o sbwriel!

**Bingo**
Gwnaed elw o £130 yn y Bingo diwethaf a gynhaliwyd ar Ebrill 12 er budd Cymorth i Ferched ym Mangor. Diolch yn fawr iawn i bawb am bob cyfraniad a chefnogaeth. Bydd y Bingo nesaf ar Fai 24 am 7yh yn y Ganolfan, gyda'r elw yn mynd at achosion lleol. Dowch yn llu - mae hwyl i gael !

**Profedigaeth**
Ar 25 Ebrill bu farw William Henry Dunn (Harry), 2 Caerhun Cottages yn 87 oed yn Ysbyty Gwynedd, a hynny dri mis wedi ei wraig Pam. Bydd colled fawr ar ôl y ddau i'w deulu a ffrindiau. Cydymdeimlwn a'r plant, wyrion a'r gor-wyrion yn eu colled.

CSL
GWASANAETHAU CYNORTHWYO FFERM
Ydych chi angen cymorth gyda'r canlynol?
- Gwasanaethau ar-lein RPW (gan gynnwys SAF, Rheoli Fy Nhir a Rheoli Fy CPH),
- Prosiect Meincnodi Cig Coch,
- Dyddiaduron Stocio a Gweithgaredd,
- Gweinyddiaeth cynlluniau Glastir,
- Gweinyddiaeth Grant Busnes i Ffermydd.

Ffôn: 07523174888,
E-bost: admin@cslfarm.com,
Ein gwefan: www.cslfarm.com

Amser ni
Egwyl preswyl dros nos
Egwyl dros nos efo teulu
Gwasanaeth Cefnogol
Gweithgareddau
Gwirfoddoli
A oes ganddoch ddiddordeb mewn gwirfoddoli gyda plant anabl a'u teuluoedd?
NEU
A oes ganddoch ddiddordeb rhoi egwyl fer i blentyn anabl dros dro?
(01286) 674 686
AmserNi@Gwynedd.Llyw.Cymru

## Calendr Llais Ogwan 2020

Lluniau ar gyfer Calendr 2020 i mewn cyn **DDIWEDD GORFFENNAF 2019**, os gwelwch yn dda, er mwyn rhoi digon o amser i gynhyrchu'r calendr. Bydd unrhyw lun o ardal Dyffryn Ogwen (gan gynnwys y Carneddau a'r Glyderau) yn cael ei ystyried.

**Lluniau mewn fformat tirlun**

*Cofiwch gynnwys eich manylion cyswllt a nodi lle y cymerwyd y llun. Gallwch hefyd roi teitl i'r llun.*

Trwy ebost at: calendr2020@outlook.com

*Neu* (print neu ar ddisg)

Calendr Llais Ogwan
Swyddfa Ogwen
26 Stryd Fawr
Bethesda
LL57 3AE



**Bydd y calendr ar werth ym mis Hydref – tybed fydd eich llun chi ynddo fo?**




## Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

11.00 -12.00, Ail Ddydd Sadwrn bob mis ym Marchnad Ogwen
11.00 -12.00 , 4ydd Dydd Sadwrn bob mis yng Nghaffi Fitzpatrick's

**Am fwy o wybodaeth neu i wirfoddoli yn y sesiynau siarad, cysylltwch â Meleri ar 01248 602131**






**Hywel Williams**
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

**CYMORTHFEYDD**
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

**Swyddfa Etholaeth**, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

**Swyddfa Etholaeth**, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

**williamshy@parliament.uk**

I hysbysebu yn **Llais Ogwan, Neville Hughes** 600853



Manylion Cyswllt Cynghorwyr Sir Dyffryn Ogwen

Rachub, Carneddi, Gerlan, Braichmelyn
cynghorydd.paulrowlinson@gwynedd.llyw.cymru 01248 605365

Tregarth, Mynydd Llandygái
cynghorydd.dafyddowen@gwynedd.llyw.cymru 01248 605523

Bethesda
cynghorydd.rheinalltpuw@gwynedd.llyw.cymru 07789 742092

Llanllechid, Talybont, Llandygái, Aber, Tyn-y-Maes
cynghorydd.dafyddmeurig@gwynedd.llyw.cymru 07765 400140

@CynghorwyrDyffrynOgwen @PlaidCymruOgwen



**Siân Gwenllian**
Aelod Cynulliad Etholaeth Arfon

**CYMORTHFEYDD**
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a'r swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

**Swyddfa Etholaeth,** 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948
**Swyddfa Etholaeth,** 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076
Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru




Ffawd y Bawd










Ffawd y Bawd

